

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 351 - 60c
Mawrth 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Pencampwr
Motorcross
Cymru**



Tudalen 26

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 20

**Dathlu Gŵyl
Nawddsant
Cymru**



Tudalen 12

Holl Hwyl Cystadlu'r Ysgol



Côr Dulas a
Mein Dulas yn
Eisteddfod Ysgol
Bro Pedr, yn ogystal
â Cerian Jenkins,
Julianna Baker,
Twm Ebbsworth
a Nest Jenkins a
ddaeth i'r brig yng
nghystadlaethau'r
gadair a'r goron.
Mwy o hanes ar
dudalen 15 a 25

A'r C.Ff.I.



Mwy o'r CFfl ar dudalen 10.

Y dwbl i Twm



Siân Elin, Clwb Cwmann yn ennill y
Berfformwraig orau dan 26, Sioned Howells,
Clwb Llanllwni a Carys Thomas, Clwb
Cwmann yn Aelodau'r Flwyddyn yn Sir Gâr.



Pen-blwydd hapus



Pen-blwydd hapus i un sydd wedi bod ynghlwm gyda Phapur Bro Clonc ers 1982 ac sydd yn dal i helpu drwy ddod i blygu'r papur yn fisol sef Del James, Y Fron, Heol y Bont sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ddechrau mis Mawrth.

Eisteddfod Dihewyd



Enillydd cystadleuaeth yr unawd a'r llefaru 8-10 oedd Peredur Llewelyn, Llandysul gydag Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill dau ail ac Elen Morgan, Drefach a Megan Wyn Morris, Talyllychau yn rhannu'r drydedd wobwr yn y ddwy gystadleuaeth. Enillodd Alwena hefyd y cyntaf ar yr Alaw Werin dan 12 oed.



Beca Ebenezer, Cellan yn fuddugol ar yr unawd a'r llefaru 6-8 oed gyda Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnwydd yn ail yn y ddwy gystadleuaeth, a hefyd yn ennill y cwpan am ganu emyn dan 12 oed.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
@Clonc360
Chwefror 24

Linda Jones y beirniad yn cael gwres ei thraed yng nghystadleuaeth #AdloniantCFfl #cffisirgar heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Chwefror 20

Diolch @elinygarn am ddiddanu aelodau Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Hywellfans
Chwefror 19

Ymdrech arwrol gan @HociLlanybydder yn rownd cyn-derfynol tlws @NottsSport @HockeyWales

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterRT
Chwefror 18

Mae'r sgwrs a'r cwrw'n llifo'n braf @ Gwyl Gwrw Llambod.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Chwefror 17

Braf gweld Neuadd yr Hafod, Gorsgoch yn orlawn heno yng Ngyngerdd Teulu #Clyncoch.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@elinygarn
Chwefror 14

Cangen MYW #Llambod gyda'u bagie 'dathlu'r aur' @YAWAR @Clybiaugwawr

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mawrth Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Ebrill Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cawl Gŵyl Dewi

Mae'n syndod nad yw Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod cenedlaethol o wyliau. Ond efallai na ddylwn i synnu taten: drwy'r oesoedd rydyn ni wedi gorfod gwrandio ar ryw esgus o resymeg taw cornelyn o Brydain yw Cymru, nid gwlad go iawn. Onid ydyn ni'n cael ein hatgoffa o hynny'n dawel ac yn gyfrwys gydag enwau fel 'tywysogaeth' ... a chan ei bod hi'n dymor rygbi'r chwe gwlad, tybed ydi stadiwm 'principality' (er taw cyfeirio at y cwmni sy'n noddi y mae'r enw) yn cadarnhau hynny yn is-ymwybod rhai?

Ond gwyliau cenedlaethol neu beidio, mae'n dda bod cymunedau ar draws Cymru gyfan (boed yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr) yn dathlu ac yn nodi gŵyl ein nawddsant. Efallai y dylwn i ddiolch nad yw'n wyliau i bawb, oherwydd pe na fyddai'n ddiwrnod ysgol, tybed faint o ymdrech fyddai'r ysgolion yn ei roi ar sicrhau dathliad teilwng? Na, mae'n dda gweld plant bach a mawr eu coch a'u brethyn, yn mynychu eisteddfodau a digwyddiadau cawl a chân. Ydy hyn yn ffasiwn sy'n dyddio? Ydi, mae'n ddigon posib - mae gen i luniau o'm cenedlaeth i (a rhai hŷn!) a orfodwyd i wneud yr un peth. Ond erbyn hyn, mae rhywun yn sylweddoli gwerth yr hyn a ddysgwyd, ac yn gwerthfawrogi'r hanes a'r traddodiad. Hyd yn oed os taw dim ond mynd trwy'r 'motions' a wnawn ni â'n plant ac â phlant ein plant, gwnawn hynny gan obeithio y byddan nhw'n tyfu i fod yn Gymry fydd yn ymfalchïo yn eu hanes, ac yn browd o fod yn perthyn i'r genedl arbennig hon yn yr unfed ganrif ar hugain.

Felly, os nad ydyn ni eisoes wedi trefnu digwyddiad i ddathlu'n Cymreictod ddechrau'r mis, magwn asgwrn cefn a byddwn yn hyderus yn yr hyn yr ydyn ni. Ac fel Cymry Cymraeg, sylweddolwn pa mor freintiedig ydyn ni, a dangoswn i'r byd a'r betws ein bod ni'n gallu gweithredu a byw yn y Gymraeg.

Cloncen

Lle aeth pawb?



Diolch i Alun Jones, Parcyrrhos am y llun hwn o griw drama yn Eglwys Caersalem yn perfformio 'Yr Hen Grydd'. Tybed a all rywun helpu gyda'r dyddiad neu enwau'r actorion?

Gohebiaeth



DIOLCH

18 Southminster Rd,
Caerdydd.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i Anthea a Gary am drefnu aduniad 30 mlynedd ers gadael ysgol Llambled. Hyfryd oedd cael dal lan a chloncan gyda dros 80 o ffrindiau wrth lenwi bola ym Mhrifysgol Llambled a hynny ar ddechrau 2017.

Yn amlwg roedd addysg wedi gadael ei farc arnom gan fod nifer wedi dechrau cwmnïau, dysgu eraill, helpu eraill, ond heb anghofio eu gwreiddiau na'r iaith.

Braf hefyd oedd cael clonc gyda'n cyn brifathro Mr Gareth Jones dros baned yn y prynhawn.

Diolch eto am yr holl waith o gasglu pawb ynghyd.

Cofion,

Lona,

[Glanafon]



Cegin llawn Cynhwysion Cymreig

Wedi gwledda Gŵyl Dewi, mae'r wledd Gymreig yn parhau yma yng nghegin Clonc wrth i mi gynnig casgliad o ryseitiau Cymreig, gan ddefnyddio cynhwysion Cymreig wrth gwrs; mae Cymru megis pantri o gynhwysion arbennig. Rydw i wrth fy modd yn darganfod cynhwysion newydd Cymreig, a'r her o'u defnyddio mewn ryseitiau. Rhowch gynnig arni i ddod â'r blas Cymreig i'ch cegin chi.

Mwynhewch fis Mawrth,

Gareth

Pei Cig oen Cymreig

Cynhwysion:

450 g briwrig oen Cymreig	1 cenhinen wedi'i thorri'n ddarnau
1 moron wedi ei thorri'n giwbiau	1 llond llwy fwrdd o Puree tomato
1 llond llwy de o saws mintys	Ychydig o hadau Sesame
Halen a phupur	

1 bloc 375 g crwst brau
1 wy wedi'i guro
2 llond llwy fwrdd o flawd plaen

Dull

1. Ffriwch y cig a'r genhinen nes bod y cig yn frown; ychwanegwch y perllysiau a'r blawd, a'u cymysgu'n dda. Cymysgwch ddigon o stoc i mewn i wneud saws trwchus.
2. Ychwanegwch y puree tomato, a'i mud-ferwi am tua 5 munud.
3. Rholiwch y toes yn gylch. Gosodwch y gymysgedd gig mewn dysgl pastai; gwlychwch ymyl y ddysgl â dŵr cyn gosod y toes dros y cig a thros ymyl y ddysgl. Torrwch yn dwi.
4. Brwsiwch ag wy, a sgeintio'r hadau sesame drosodd. Pobwch am 25 – 30 munud mewn ffwrn 190 C Nwy 5

Ffritatas Cig moch Cymreig (digon i 6)

Cynhwysion

4 tafell o gig moch wedi'u torri'n giwbiau	
1 gorbwmpen wedi'i dorri'n sgwariau	
1 cenhinen wedi'i sleisio	125 g o gaws Cymreig wedi gratio
6 wy wedi'u curo	125 ml Crème Fraiche
2 llwy fwrdd o Bara Lawr	1 llwy de o fwstard Cymreig

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C Nwy 4
2. Ffriwch y cig moch am rai munudau, yna ychwanegwch y gorbwmpen a'r cennin, a'u ceginio nes eu bod yn olau. Oerwch cyn ychwanegu'r caws.
3. Codwch y gymysgedd llysiau i dun 'myffins' wedi'u iro.
4. Cymysgwch yr wyau, crème fraiche, bara lawr, mwstard, pupur a halen, ac arllwyswch dros y llysiau yn y tun.
5. Pobwch am 25 munud nes eu bod wedi setio. Gweinwch yn gynnes neu'n oer.

Aeron hudolus gwirod Merlyn - Pwdin syml ac effeithiol

Cynhwysion

150 ml hufen dwbwl ffres	100 g siocled gwyn wedi'i ddarnio
2 llwy fwrdd o wirod hufen Merlyn	Pinsed o sinamon
275 g aeron cymysg fel mafon a llus	
4 bisgedi menyn Cymreig wedi'u malu	

Dull

1. Toddwch y siocled a'r hufen mewn sosban fach dros wres isel. Tynnwch hi oddi ar y gwres, ac ychwanegwch y gwirod a'r sinamon.
2. Rhennwch y ffrwythau rhwng 4 gwydr. Arllwyswch y saws cynnes drostynt, a'u sgeintio â'r bisgedi.

I Mam

Yr anrheg berffaith ar gyfer Sul y Mamau

Hamper sy'n cynnwys:

Cacen wedi'i addurno'n arbennig;
Siocledi Gareth; Bisgedi crwst brau; Pice ar y mân;
Pot yr un o farmlêd, jam a tsiytini.
Y cyfan wedi eu pacio fel rhodd £18

.....
Basged o flodau ffres £15

Archebwch oddi wrth Gareth Richards 01570 422313



MAWRTH

- 2 Gŵyl Offerynnol yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 3 Cwrdd Gweddi'r Chwiorydd yn Eglwys Sant Iago Cwmann am 2:30yp
- 3 Cyngerdd Pwyllgor Rhieni a Ffrindiau Ysgol Llanllwni yng Nghapel Nonni gydag Owain Davies, Gwndwn, Lleisiau'r Werin a phlant yr ysgol. Tocynnau: £5. Plant ysgol gynradd am ddim, 01559395624.
- 3 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.00y.h.
- Artistiaid: Ysgol Gynradd Llanwnnen a C.Ff.I. Llanwenog.
- 6 Cyngerdd "Cynulleidfa gyda..." C.Ff.I. Llanwenog yn Theatr Felinfach am 7.30y.h. Tocynnau o'r Theatr – 470697 - £5 yr un.
- 8 Eisteddfod yr Urdd Cylch Aeron yn Theatr Felinfach.
- 8 Cyfarfod i drefnu dathlu addysg Ysgol Cwrtnewydd am 7.30y.h yn neuadd yr ysgol. Gwerthfawrogi syniadau ar gyfer y trefniadau.
- 8 Cyfarfod 'Cydio yn ein Cyfryngau' Gwesty'r Plu Aberaeron 7yh.
- 9 Cyngerdd "Cynulleidfa gyda..." C.Ff.I. Pontsian yn Ysgol Bro Teifi.
- 10 Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi.
- 10 Huw Edwards (BBC) yn traddodi Darlith Goffa Tucker yn Narlithfa Tucker Coleg Llambled am 7.00y.h. Mynediad am ddim trwy docyn.
- Cysylltwch â Rhiannon Ifans 01970 828719.
- 11 Cyngerdd C.Ff.I Llanllwni yn neuadd Llanfihangel-ar-Arth, i ddechrau am 7.30yh. Mynediad yn £5. Croeso i'r teulu i gyd.
- 13 Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Gynradd Llanwnnen am 7.00yh i drafod dathlu cyfraniad yr ysgol dros y ganrif ddiwethaf.
- 14 Pwyllgor Cangen Diabetes Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.30y.h. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.
- 15 Arwerthiant Blynnyddol Cymdeithas Chwiorydd Aberduar am 7.30yh
- 16 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr am 1.30y.p.
- 17 Sefydliad Prydeinig yn cyflwyno Meibion y Mynydd, Ponterwyd yn y Neuadd Fwyd, Coleg Llanbed am 7.30 yh. Tocyn £15.
- 19 Gymanfa Ganu Brenhines a Ffarmwr Ifanc CFfI yng Nghapel Mydroilyn am 7:30y.h. gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.
- 24 Y band 'Free Beer' yn y Clwb Rygbi Llanbed.
- 24 Eisteddfod yr Urdd Uwchradd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 25 Eisteddfod yr Urdd Cynradd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 26 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa Llambled am 5.00y.p.
- 27 Derbyn Newyddion CLONC.
- 28 Cyfarfod Cenedlaethol Papurau Bro yn Llety Parc, Aberystwyth.
- 28 Cylch Meithrin Llanybydder yn cynnal Noson Bingo yn y Clwb Rygbi.
- 31 Eisteddfod y Dysgwyr Ceredigion yn Theatr Felin-fach.

EBRILL

- 1 Dafydd a Lisa, Tudur Wyn a Clive Edwards yn Llety Parc Aberystwyth
- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 7 Dawns Dewis Brenhines Carnifal Llanybydder yn y Clwb Rygbi 6.30yh
- 16 Cymanfa Fodern yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 7.30 y.h.
- Arweinydd: Mrs. Elonwy Davies, Cyfeilydd: Mr. Bryan Jones (Bryan yr Organ), Artistiaid Lleol. Elw at Apêl Sir Gâr, Sir Nawdd CAFC 2017.
- 18 Cinio 3 chws ac Ocsiwn Elusenol 50 mlynedd Ford Gron Llanbed yn Ffreutur Lloyd Thomas gyda Nigel Owens. Tocynnau £35 - 07791629140.
- 19 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen.
- 23 Taith Dros Fwyd gadael Ysgol Llanwenog am 10.00y.b.
- 23 Taith Dros Fwyd gadael Penrhyn ger Ysgol Carreg Hirfaen 10.30yb
- 23 Cymanfa Ganu Undodiaid yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.
- Plant ac Ieuenctid am 1.30 ac Oedolion am 5.00.
- 24 Fforwm Papurau Bro Ceredigion yng Nghanolfan Addysg Felinfach.
- 27 Eisteddfod Celf a Chrefft Ceredigion yng Ngwersyll Llangrannog.

MAI

- 1 Gŵyl Mai Neuadd Pumsaint - Sioe, Carnifal, Coets, mabolgampau a rhagor. Mwy o fanylion: Mair 01558650309 / Christine 01558 685439.
- 6 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Rhagor o fanylion: Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd ar 01545 590295.
- 6 Memphis Belle yn canu yn Clwb Rygbi Llanybydder am 7.30y.h.
- 13 Rali CFfI Sir Gaerfyrddin.
- 14 Cyngerdd Cardi-Gân yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30yh
- 14 Rihysal Cymanfa'r Bedyddwyr am 2.00y.p.
- 17 Te Prynawn Ymchwil y Cancr yn Y Pantri, Llanbed am 2yp
- 19 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
- 20–21 Twrnament Pêl-droed Llanybydder ar y Cae Rygbi.
- 21 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yng nghapel Noddfa am 4.00y.p.
- 26 Noson Gwis Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Cwis feistr, cadeirydd R.A.B.I, Malcolm Thomas.
- 28 "It's a Knockout" ar Gae Rygbi Llanybydder am 1.00y.p.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Cymerodd Mathew Williams a Marigold Smith ran mewn cwis a drefnwyd gan Fenter Iaith Cymru yn Ysgol Brynsaron yn ddiweddar. Bu Mathew Williams ac Elan Evans yn cystadlu yng ngala nofio yr Urdd. Da iawn chi blant.

Ar Ddiwrnod Defnyddio y Rhyngrwyd yn Ddiogel cawsom wers bwer-pwynt gan drafod y peryglon ac yna gweithio mewn grwpiau.

Aethom allan i weld yr adar sy'n hedfan o gwmpas yr ysgol ar Ddydd Gwyllo Adar ac yna chwilio am luniau o'r adar mewn llyfrau ac ar y we a thynnu lluniau.

Bu Elan Evans yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd, Cylch Llanbed. Mwynhaodd y profiad - da iawn ti.

Bydd gennym Jumble Sale yn yr ysgol ar Ddydd Iau, Mawrth 23ain am rhyw awr ar ôl oriau ysgol lle bydd cyfle i rieni a ffrindiau ddod i brynu dillad ail-law. Croeso i chi alw mewn a falle cael bargaen!

Bydd y lori Bags2school yn casglu bagiau o hen ddillad ar Ddydd Mawrth, Mawrth 28ain. Os oes gennych hen ddillad neu esgidiau gallwch ddod â'ch bagiau i'r ysgol cyn y dyddiad neu yn y bore - cyfle gwyb i glirio'r cypyrddau dillad!

Cofiwch am ein Cyngerdd Nos Wener, Mawrth 3ydd am 7 o'r gloch yng Nghapel Nonni pan fydd plant yr ysgol a Lleisiau'r Werin yn ein diddanu, gydag Owain Davies yn arwain y noson. Y Llywyddion fydd Mr. a Mrs. Alun Williams, Rhydlydan, Pumsaint. Pris tocyn yw £5, ymlaen law o'r ysgol neu gellir talu wrth y drws. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol Mis Chwefror: 1af - £10 - Mr. Gareth Jones, Prifathro Ysgol Llanllwni; 2ail - £5 - Mark a Louise, Oak Tree Lodge, Llanllwni; 3ydd - £5 - David John Davies, Maes Farm, Llanllwni.

Dymuna athrawon a staff yr ysgol estyn cydymdeimlad dwys â Mrs Elonwy Jones (pennaeth Y Cyfnod Sylfaen) a'i theulu ar golli ei thad, sef Evan David Thomas (Iwan) gynt o fferm Llether Rhydcymerau.

C.Ff.I. Llanllwni

Mis o ymarferion yw hi 'di bod y mis yma! Erbyn i chi ddarllen y golofn hyn bydd cystadleuaeth adloniant Sir Gâr wedi bod, ond fydd rhaid i chi aros tan rhifyn mis nesa' i weld a yw'r holl ymarferion wedi talu ffordd!

Ar diwedd Mis Ionawr bu cystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymraeg y Sir. Braf yw dweud bod dau dîm adran darllen; ynghyd a thîm adran iau, adran ganol ac adran hŷn gan Llanllwni eleni. Daeth llwyddiant i'r tîm hŷn wrth i Siôn, Ifor ac Owain ddod i'r trydydd safle.



Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni yn cipio dau gwpan, yn y canu a'r adrodd dan 6 oed yn Eisteddfod Dihewydd.

Cafodd Owain ei enwi fel un o dîm y Sir a fydd yn mynd ymlaen i Gymru; ynghyd â Tomos Jones wrth gefn yn yr adran ddarllen. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan, a diolch o galon i'r hyfforddwyr. Mrs Marina Davies yn yr adran ddarllen; Mrs Eileen Davies yn yr adran iau; Mrs Margaret Davies a Mrs Helen Howells, Tegfan yn yr adran ganol; a Mrs Menna Evans yn yr adran hŷn.

Bydd y clwb yn cynnal cyngerdd nos Sadwrn yr 11eg o Fawrth yn neuadd Llanfihangel, lle fyddwn yn perfformio'r 'noson ynghwmi', ynghyd â nifer o eitemau eraill gan aelodau'r clwb. Rhowch y dyddiad yn y dyddiadur!

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Taenwyd ton o dristwch dros yr ardal gyfan gyda marwolaeth Mr Lewis Davies, Beili Bach (Gwndwn gynt). Roedd yn 92 oed, ac wedi cael iechyd da tan y ddwy flynedd ola'. Dyn ei filltir sgwâr oedd Lewis, ac yn amaethwr o'i ben i'w sawdl. Symudodd gyda'i wraig, Betty, i Beili Bach bum mlynedd ar hugain nôl, a chael cyfle i fwynhau ymddeoliad. Roedd Eglwys Sant Luc yn ail gartre iddo, ac fe roddodd flynyddoedd o wasanaeth di-flino i'r Eglwys hon. Coffa da amdano, ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Betty, Eiryth, Dyfrig a'u teuluoedd, ac i'w chwaer Sarah yn eu hiraeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Tom Jones, Bryn Dulais ar ôl iddo golli chwaer yn ddiweddar.

Undeb y Mamau

Braf oedd cael croesawu Geraint a Caroline Davies o Lanwenog atom fis Chwefror, ac roedd pawb yn falch i weld Celt, eu hŵyr, wedi dod gyda nhw. Testun y sgwrs oedd eu taith i Dde America llynedd, ac yn arbennig hanes Patagonia. Cawsom olrhain hanes y sefydlu cynnar; taith ar y Mimosa, a'r caledi a ddioddefwyd yn y blynyddoedd cynnar. Doedd pethau ddim yn fêl o gwbl, a rhyfedd



Tîm siarad cyhoeddus hŷn CFfI Llanllwni sef Siôn, Ifor ac Owain a ddaeth yn drydydd.

gweld bywyd yno fel mae heddiw o'i gymharu â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yr aelodau wedi mwynhau'n fawr, a diolch iddynt am roi o'u hamser.

Enillwyr Clwb 100 mis Chwefror

1af: £15.00 Mrs B Davies, Beili Bach (rhif 82); 2il: £10.00 Mr Heather Jones (rhif 55); 3ydd: £10.00 Mrs Margaret James (rhif 17).

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Hoffai pwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni diolch i bawb am eu cymorth a chefnogaeth ar diwrnod ffair Nadolig ym mis Rhagfyr. Gwnaed elw o £3,156.80 i'w rhannu rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol. Cafwyd diwrnod llwyddiannus dros ben a gwnaeth pawb fwynhau siopa cynnyrch lleol.

Croeso cynnes i Megan Jones sydd wedi ymuno â'r Cylch tymor yma. Gobeithio dy fod yn mwynhau yn ein plith!

Ein thema tan hanner tymor Chwefror yw 'Y Byd Mawr'. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am y tywydd a'r tymhorau, dathlu Santes Dwynwen a'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd. Cafodd y plant a'u rhieni gyfle i fynd am ginio Tsieinaidd yn Bwyty Dan 'I Sang, Llandysul ar y 27ain o Ionawr i ddysgu am eu fwyd. Cawsant wledd flasus iawn - diolch yn fawr i'r perchnogion y croeso cynnes. Byddwn yn dysgu am wlad yr Arctig tan ddiwedd hanner tymor.

Cynhelir noson bingo yn Talardd am 8pm ar y 3ydd o Ebrill. Mi fydd gwobrau ariannol i'w hennill a lluniaeth ar y noson. Croeso cynnes i bawb!

Ti a Fi

Dyma gweithgareddau Cylch Ti a Fi am y tymor nesaf:

7.2.17 Gweithgaredd 6 gwlad; 14.2.17 Ceginio Pancws; 21.2.17 Hanner tymor; 28.2.17 Gweithgaredd Gŵyl Ddewi; 7.3.17 Dathlu Diwrnod y Llyfr; 14.3.17 Diwrnod gwydd ar gyfer Dydd Sant Padrig; 21.3.17 Crefft Sul y Mamau;

28.3.17 Crefft Pasg; 4.4.17 Helfa wyau yn Little M'zzz.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn Mawrth 1-3yh. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a tad-cus i ddod gyda'u plant i gymeryd rhan yn gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Mrs Mair Williams a'r teulu, 7 Bryndulais ar golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thad-cu yn ddiweddar, sef Cyril Jones. Hefyd Mrs Betty Davies Beili Bach a'r teulu ar golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thad-cu, sef Lewis Davies gynt o Gwndwn.

Cydymdeimlir â Mrs Elonwy Jones (athrawes yr Ysgol) ar golli ei thad yn ystod yr wythnosau diwethaf, Iwan Thomas gynt o Llether, Rhydcymerau.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Sallie James, Cornel.

Pencarreg

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Audrey Evans, Blaencarreg yn well erbyn hyn yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Diolch

Dymuna Audrey Evans, Blaencarreg ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y lluo o gardiau, blodau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Gwerthfawrogi eich consyn yn fawr. Diolch yn ddiffuant i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Manon Williams, Muriau Gwyn ar ei llwyddiant fel un o bedwar sydd wedi cael eu dewis o Geredigion i fynd i Batagonia gyda'r Urdd i wneud gwaith gwirfoddol.

Cynhaliwyd y Pantomeim Saesneg ar ddiwedd mis Ionawr gan y Little Mill Players. Aethant â ni i Camelot a chafwyd blas o'r straeon hud a lledrith, brad a rhamant a charwriaeth fawr y Brenin Arthur a Gwenhwyfar. Cynhaliwyd pedair sioe yn llawn drygioni, daioni, a buddugoliaeth. Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn ac roedd pawb wedi mwynhau'n arw.

Nos Wener, 17eg Chwefror, cynhaliwyd Noson Gomedi mewn cydweithrediad ag Urdd Gobaith Cymru a chwmni Zeitegeist. Mae Theatr Felinfach wedi bod yn gweithio gyda chwmni Zeitegeist i ddatblygu'r sîn gomedi Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnal nosweithiau yng nghwmni Tudur Owen, Elis James a Phil Evans i enwi ond rhai. Cynhyrchiad diweddaraf y cwmni oedd y gyfres deledu "Gwerthu Allan" lle cyflwynwyd cenedlaeth o gomediwyr newydd i'r gynulleidfa Gymraeg.

Daw Steffan Evans o ardal Eglwyswrrw a Beth o Ddinbych. Daeth y ddau ohonynt i amlygrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chyfres 'Gwerthu Allan'. Mae Steffan yn berfformiwr gwbl naturiol ar lwyfan ac ar ei orau yn chwarae gyda'r gynulleidfa. Mae cynulleidfaoedd wedi dwli ar Beth ymhob cornel o Gymru. Mae Sam, Shon, Cennydd a Huw Bryant yn gymeriadau poblogaidd, adnabyddus a lliwgar ynghylch cylchoedd y Clybiau Fferwmyr Ifanc a thu hwnt. Er bod y noson yn targedi pobl ifanc, roedd yn agored i bawb a chafwyd trawsdorriad eang o gynulleidfa a honno'n un gref.

Mae wythnos hanner tymor mis Chwefror yn golygu un peth yn Theatr Felinfach a hynny yw wythnos llawn o gystadlu i aelodau Clybiau Fferwmyr Ifanc Ceredigion. Roedd 15 o glybiau'n cystadlu o'r nos Lun i'r nos Wener a'r tri clwb a ddaeth i'r brig yn ail berfformio ar y nos Lun canlynol. Cefin Vaughan, cyn actor a chyn aelod o Glwb Fferwmyr Ifanc Hermon oedd y beirniad. Mae'n siŵr iddo gael sawl cot o chwys yn ystod yr wythnos!

Hwyl a Hamdden - Sesiwn gymdeithasol i rai dros 50 oed. Mae'r grŵp yn cwrdd bob prynhawn Mercher rhwng 1:30 a 3:00yp ac mae'r sesiwn yn amrywio o wythnos i wythnos, yn cynnwys siaradwyr, teithiau ac adloniant ysgafn.

Amserlen Gweithgareddau - Dramatic! Clwb drama i ddisgyblion 7-11oed - 4:00yp - 5:00yp; Nos Lun - Ysgol T Llew Jones; Nos Fawrth - Ysgol Henry Richard (Campws Uwchradd); Nos Fercher - Y Gwndwn, Theatr Felinfach

Mae'r clybiau Dramatic yn brysur yn creu sioe a fydd yn cyd fynd gyda thema Llywodraeth Cymru eleni, sef

Blwyddyn Chwedlau.

Clwb Dawns i blant 3 - 6 oed - Y Gwndwn, Theatr Felinfach - pob Nos Lun am 4:15yp - 5:00yp. Bydd y Clwb Dawns yn canolbwyntio ar sgiliau ac arddulliau dawns amrywiol.

Yr Ysgol Berfformio - Cynradd 7-11 oed - 4:30yp - 5:30yp, Pris pob hanner tymor, £30; Uwchradd 11-18 oed - 5:30yp - 7:00yh, £35.

Os nad oeddech yn medru bod yn bresennol yn ystod yr hanner tymor cyntaf, mae dal croeso i chi ymuno. Cofiwch ddod â thâl yr hanner tymor nesaf gyda chi ar 2il Mawrth 2017.

Mae Lowri, Swyddog Creadigol (Dawns a Theatr) yn teimlo'n gyffrous iawn i ddechrau ar y gwaith o ddyfeisio perfformiad gyda Chwmni Dawns Iau/Ieuencid Ceredigion dros yr wythnosau nesaf. Prosiect perfformio i blant a phobl ifanc y sir fydd hwn ac os ydych rhwng 7-18 oed neu yn adnabod rhywun sy'n hoff iawn o ddawnsio, perfformio ac sydd eisiau datblygu'r sgiliau yma, ynghyd â datblygu sgiliau coreograffi. Mae'n gyfle gwych i feithrin a datblygu hyder, cymdeithasu, gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl wrth baratoi at berfformiad ar lwyfan.

Ymarferion yn cychwyn Dydd Sul 5ed Mawrth Iau (7-11oed) 10.00am - 12.30pm / Ieuencid (11-18oed) 1.00pm - 4.30pm. Bydd ymarferion ychwanegol yn ystod wythnos y perfformiad. Cynhelir y perfformiad ar 15/4/2017. Cost y prosiect yw £20 yr un i'r criw iau a £25 yr un i'r ieuencid.

Tic-Toc - Sesiynau stori, dawns a chân i blant 0-3 oed a'u rhieni - pob bore Gwener am 10yb. Mae TicToc hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cered ac yn cynnal sesiynau AM DDIM yn Penparcau ac Aberporth dros gyfnod o 4 wythnos.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr? 2/3/17 - Gŵyl Offerynnol Ceredigion; 3/3/17 - Y Ladis - Sioe newydd sbon gan Carys Huw, Nia Medi a Mair Tomos Ifans wedi ei hysbrydoli gan luniau Menywod Cymreig Ruth Jên Evans. Ddim yn addas i blant a phobl cul eu meddwl! 14+; 8/3/17 - Eisteddfod Cylch Aeron Urdd Gobaith Cymru; 10/3/17 - Cyngerdd Pigion Cynulleidfa gyda CFfi Llanwenog; 15/3/17 - Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Yfory'. Drama newydd gyffrous gan Siôn Eirian; 24/3/17 - It's an Act Company yn cyflwyno 'Perfect Pitch'. Comedi gan Jon Godber am gwpl sy'n mynd i garafanio am y tro cyntaf. Ni fydd bywydau Ron ac Yvonne byth yr un peth eto! Cynhyrchiad Saesneg 14+; 28/3/17 - Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno Y Glec. Parti pen-blwydd ac effaith alcohol yn arwain at ddiweddglo dychrynlyd. 14+.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

**Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY**

❖ **Cyfrifon Blynnyddol ac Interim**

❖ **Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau**

❖ **Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW**

❖ **Cyflogau a CIS**

❖ **Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion**

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

**LAS
Recycling Ltd**



**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach**
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

**Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)**



Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Ffarmers

Neuadd Bro Fana



Trefnwyd Cyngerdd gan barti bechgyn Ar Wasgar yn Neuadd Bro Fana ar yr 20fed o Ionawr, gyda Ifan Gruffydd yn ymuno â hwy fel gwestai arbennig, ynghyd â thalentau o'r ardal. Llywydd y noson oedd Meinir Howells, Pentrecwrt – cyflwynwraig ar raglen Ffermio. Yn ei araith, cyfeiriodd Meinir at y profiad a gafodd hi, fel aelodau Ar Wasgar, o fod yn aelod o Fudiad y Ffermwyr Ifanc, a sut oedd hyn wedi rhoi iddynt hyder a chyfle i ddatblygu eu doniau, a chyfrannu i fywyd eu cymunedau. Cafwyd noson arbennig o adloniant, gyda phawb yn canmol y safon, ac yn cymharu'r arlwy gyda'r hen nosweithiau llawen traddodiadol Gymreig, yn cynnwys canu, datganiadau offerynnol, ambell sgets, a digon o jôcs. Roedd Ar Wasgar, o dan arweiniad Irene Williams, wedi trefnu'r noson i godi arian ar gyfer Apêl Sir Gâr - Sir nawdd Y Sioe Fawr eleni; ac hefyd i Ward Dinefwr yn Ysbyty Glangwili.

Ar brynhawn Sul y 5ed o Chwefror, cynhaliodd Clwb Cerddoriaeth Llanbedr Pont Steffan gyngerdd yn y Neuadd gyda'r unawdydd Graham Trew o Lanfairwaterdine ger Trefyclawdd – bariton a chanddo gysylltiadau â Llanwrda. Yn cyfeilio iddo oedd Susi Morrow, Tycanol, Ffarmers, a chafwyd hefyd ddatganiadau ar y piano gan Lesley Young o Colchester. Prynhawn pleserus iawn.



Cafwyd Noson Gawl a Chyngerdd i ddathlu Gwyl Ddewi ar yr 17eg, o Chwefror gyda Bois y Gilfach yn ein diddanu. Roedd rhai o ferched Cyngor y Neuadd wedi paratoi cawl blasus, a tharten afalau ar gyfer pawb, ac ar ôl gwledd i fwyta, cafwyd gwledd o adloniant gan Bois y Gilfach gyda Heledd Williams yn arwain a chyfeilio i'r Côr. Mae'r criw bechgyn yma o Geredigion wedi bod wrthi yn diddanu cynulleidfaoedd ers 2010, a chafodd neb eu siomi yn y Gyngerdd yma. Eto, roedd y gynulleidfifa yn cymharu'r noson gyda'r Nosweithiau Llawen traddodiadol Gymreig. Mae'n dda gweld fod ymdrechion y bobl ifanc yma yn cael eu gwerthfawrogi. Diolch amdanynt.

Dymuna Cyngor y Neuadd ddiolch i'r holl bobl sy'n cefnogi gweithgareddau'r Neuadd trwy'r flwyddyn. Heb eich cefnogaeth, ni fyddai modd cynnal y Neuadd ar gyfer y gymuned. Diolch o galon.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?

Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Gohebiaeth

HELFA DRYSOR HEN FFILMIAU

Mae yna apêl arbennig i hen luniau ffilm cartref: y gwisgoedd diddorol, hetiau rhyfeddol, cymeriadau neilltuol a cheir clasurol sy'n croesi'r sgrin yn eich lolfâ! Efallai bod y ffilmiau hyn yn dod mas ar gyfer achlysuron teuluol neu ddigwyddiadau cymunedol sbesial, er mwyn i bawb gael chwerthin a chofio. Ond yn awr mae yna gyfle i'w rhannu gyda'r genedl.

Os oes hen ffilmiau cine difyr gyda chi, yn llechu mewn atig neu'n casglu llwch mewn garej, fe hoffai cwmni teledu Silent Movies o Gaerdydd glywed amdanynt. Mae'r cwmni yn cydweithio hefo Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, sydd yn rhan o Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, ar raglen deledu i BBC Cymru sy'n gobeithio dadorchuddio rhai o drysorau sinematig coll y genedl.

Ers y 1920au mae pobl Cymru wedi bod yn croniclo hanes eu tylwyth a'u cymuned ar gamerau ffilm Super 8, Standard 8 a 16mm. Maent wedi recordio delweddau a digwyddiadau sy'n nodweddiadol o'n hanes fel Cymry: carnifal pentref, treialon cŵn defaid, eisteddfod fro, cymanfa ganu, gwyliau hynod Cymreig ar lan y mor neu ar ben mynydd.

Mae nifer o'r ffilmiau hyn eisoes wedi eu casglu a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol yng nghasgliad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru. Mi fedrwyd wyllo rhai o'r ffilmiau mwyaf difyr o'ch ardal chi, drwy chwilio map 'Britain on Film' ar wefan y BFIPlayer: <http://player.bfi.org.uk/britain-on-film/map/>

Nod y rhaglen newydd fydd ehangu ar gasgliad presennol yr Archif drwy ddarganfod ffilmiau cartref sydd o bosib heb weld golau dydd ers blyneddau. Mae bwriad y cyfarwyddwr Dafydd O'Connor yn un uchelgeisiol: "Rhyngddynt, mae gwneuthurwyr ffilmiau cartref wedi creu cronicl o fywyd y genedl sy'n llawer mwy lliwgar a phersonol na'r hyn y mae unrhyw griw rhaglen ddogfen wedi medru ei recordio. Yn y rhaglen hon ein nod fydd agor archif gudd ugeinfed ganrif y Cymry, gan ddarganfod beth mae'n ddatgelu am ein bywydau oll."

Os oes hen ffilm wedi ei chreu gan eich teulu neu gymuned yn eich meddiant fe hoffai'r tîm glywed amdani.

Gallwch ebostio: movies@silentmovies.media neu adael neges ar y rhif hwn 0370 218 3100.

Duw a wŷr pa drysorau gwladwy sy'n dal i aros i gael eu darganfod o gwmpas Cymru!

O'r Cynghorau Bro



CYNGOR CYMUNED LLANWENOG

CADEIRYDD: Cyng Geraint Davies, CLERC: Gwennan Jenkins

Cyfeiriad Gwefan: www.cyngorllanwenogcouncil.org.uk

PLAC DESIN A DAFYDD

Gan y bydd Ysgol Gynradd Llanwenog yn cau ei drysau ym mis Gorffennaf eleni, cynigwyd gan y llywodraethwyr bod Plac Coffa Desin a Dafydd yn cael ei symud a'i osod o fewn muriau'r gofologlofn yn Nre-fach er mwyn sicrhau ei fod dal yn weladwy i'r cyhoedd. Os oes gan unrhyw un wrthwynebiad i byddem yn ddiolchgar petaeach yn rhoi gwybod, yn ysgrifenedig, i'r Clerc erbyn y 31ain o Fawrth 2017.

CYSGODFAN BWS AR WERTH

Mae gan y Cyngor Cymuned gysgodfan ar werth. Rhaid i'r cynigion fod yn llaw'r Clerc erbyn canol dydd 31ain o Fawrth 2017. Y cynnig uchaf a gaiff ei dderbyn. Cyfrifoldeb yr enillydd fydd symud y gysgodfan.

TAITH DROS FYWYD 2017

Bydd y Cyngor Cymuned yn trefnu Taith Dros Fwyd eleni eto ar ddydd Sul 23ain o Ebrill 2017. Bydd y daith yn dechrau o safle Ysgol Gynradd Llanwenog cyn iddi gau ei drysau. Mi fydd hi'n daith o ryw 5 milltir a bydd lluniaeth yn disgwyl pawb ar y diwedd. Bydd y ffurflenni noddi ar gael yn fuan! Bydd y daith yn dechrau am 10yb. Edrychwn ymlaen at eich gweld!

CIOG COCH CWRRTNEWYDD

Diolch i weledigaeth pentrefwyr Cwrtnewydd bydd Ciosg Cwrtnewydd yn cael ei drawsnewid i fod yn hwb cymunedol a'i ddefnyddio ar gyfer lle i fynd a benthyg llyfrau darllen, cartref i un o'r diffibriliwr a hysbyswrdd. Am ragor o wybodaeth neu os ydych am roi help llaw, cysylltwch â Debby Champan, Bryngranod neu Graham Watson, Yr Aber. Mae Cadeirydd y Cyngor Cymuned wedi glanhau'r Ciosgs ac mae'r Cyng Euros Davies wedi gosod hysbyswrdd yn y rhan fwyaf ohonynt. Cofiwch eu defnyddio i hysbysebu eich digwyddiadau chi.

DIFFIBRILWYR

Mae Pwyllgor Sioe Cwmsychpant yn garedig iawn wedi codi arian i brynu diffibrilwyr ar gyfer y gymuned ac wedi gofyn caniatâd gan y Cyngor Cymuned i'w gosod yn y safleoedd canlynol:

- Ciosg Cwmsychpant
- Ciosg Cwrtnewydd
- Ciosg Drefach

Maent wedi eu gosod, ewch i gael cip ar y cyfarwyddiadau a gobeithio y bydd cyfle cyn hir i gael noson hyfforddiant ar sut i'w defnyddio os bydd rhywun yn cael trawiad ar y galon.

RHEOLAU CYFLYMDER DREFACH

Mae rheolau cyflymder Drefach ar fin newid. Bydd y parth 30mya yn aros a bydd y parth 40mya yn estyn ymhellach i gyfeiriad Llanbedr Pont Steffan hyd at Glanh-yd. Bydd camerâu cyflymder hefyd yn ymweld â'r pentref.

CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

Rhoddwyd £100 at Gôr Lleisiau'r Werin. Rhoddwyd £1,000 i'r Cylch Meithrin. Rhoddwyd £50 tuag at Eisteddfod Llangollen. Gofynnwyd am £26,000 i Gyngor Sir Gâr yn bresept am y flwyddyn 2017/18.



The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologlofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Gohebiaeth



Annwyl gyfaill

Daeth yn gyfnod ymgyrch aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma ysgrifennu at ddarllenwyr Clonc i ofyn i chi ymaelodi â'r Gymdeithas, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu dal ati i wneud ein gwaith a sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Mae llawer o newid wedi bod yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, er gwell ac er gwaeth. Un peth cyson yw'r ffaith bod Cymdeithas yr Iaith wedi bod yna bob cam o'r ffordd, yn brwydro i sicrhau hawliau i bobl Cymru, a dyfodol i'r iaith.

Mae llawer wedi'i ennill, ond mae ffordd bell i fynd eto cyn cyrraedd y nod. Mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith er mwyn dal ati gyda'r gwaith. Allwch chi gefnogi? Fe fyddai'n braf iawn gweld rhagor o bobl Llambod a'r cylch yn ymaelodi eleni.

Fe allwch chi ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan www.cymdeithas.cymru/ymaelodi gan dalu gyda'ch cerdyn banc, neu drwy anfon siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ffonio'r swyddfa ar 01970 624501 i gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn. Cofiwch sôn eich bod yn ymaelodi ar ôl gweld y llythyr yn Clonc!

Mae angen eich cefnogaeth yn fwy nag erioed, felly ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na newch chi, pwy neith?

Gyda diolch,

Osian Rhys

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Llanybydder

Cancer Research UK Ardal Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch



Ar yr 19 Tachwedd cafwyd noswaith arbennig gyda Clive Edwards, Cwmeils yn y Llew Du Llanybydder. Gwnaethpwyd £1,267.20 o elw. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Andrew Thomas, Llanllwni. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu rhodd arbennig o hael. Talwyd y diolchiadau gan ein Cadeirydd Y Cynghorydd Ieuan Davies. Yn y llun mae Mrs Bethan Thomas, Y Cynghorydd Ieuan Davies a Mr Andrew Thomas.

Graddio

Derbyniodd Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder radd Meistr mewn Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol Uwch ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da a phob lwc i ti yn dy swydd newydd.

Eglwys San Pedr

Lansiwyd y Clwb 122 (oedd i fod yn Glwb 100 ond wedi llwyddo i gyrraedd rhif yn uwch!) yn ystod Gwasanaeth y Sul 19eg o Chwefror 2017. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi prynu rhif (£10) ac i'r rai hynny sydd wedi eu gwerthu; gwerthfawrogi hyn yn fawr. Gwobrau £15, £10 a £5 yn fisol ac eithrio Ionawr ac Awst a £30, £20 a £10 yn ystod mis Rhagfyr.

Enillwyr Mis Chwefror: Lois Thomas (£15); Margaret Griffiths, (£10); Eirian ac Emyr Jacob (£5).

Tristwch oedd clywed am farwolaeth Mrs Valmai Davies, Dwyylan, Llanybydder a Mrs Maude Pybus, Y Knoll, Llanybydder. Bu'r ddwy'n aelodau ffyddlon o'r Eglwys ers dros hanner canrif a gallant ddweud yn sicr: 'Mi a ymdrechais ymdrech deg mi a gedwais y ffydd'. Bydd bwch mawr ar eu hól.

Cynhaliwyd angladd Mrs Valmai Davies (gwraig y diweddar Dr Edward Casburn Davies) ar ddydd Mercher 1af o Chwefror yn yr Eglwys. Talwyd teyrnged iddi gan Mrs Beverly Pold. Cofiwn am ei phlant John, Joanna a'i dwy hwyres Alys ac Elen yn ystod yr amser anodd hwn.

Cynhaliwyd angladd Mrs Maude Pybus ar ddydd Sadwrn 4ydd o Chwefror 2017 o fewn yr Eglwys ac estynnir cydymdeimlad â'i gŵr Mr Pybus, eu merched Julia, Audrey a Caryl a'u teuluoedd.

Cynhelir Gwasanaeth y Gair ar y ail Sul y mis am 9.30am a'r

Gwasanaeth Teulu i gydredeg â'r Ysgol Sul (o dan arweiniad Kay a Steve) ar y 3ydd Sul y mis am 11am. Sul cyntaf y mis – 8.30am. 4ydd Sul y mis – 5pm.

Dymunir yn dda i bawb sydd heb fod yn teimlo'n hwylus neu sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i Denise Evans, Pentop ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Chwefror. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Bingo

Bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Noson Bingo yn y Clwb Rygbi ar y 28ain o Fawrth am 8.00 o'r gloch. Bydd gwobrau ariannol a raffl hefyd.

Noson Canu Gwlad

Bydd Memphis Belle yn canu yn y Clwb Rygbi ar y 6ed o Fai i ddechrau am 7.30yh. Pris tocyn yn £7.00 a bydd yr elw yn mynd tuag at Ymchwyl y Cancr Llanybydder a Llanbed. I archebu tocyn gallwch ffonio Gary ar 01570 481449.

Ysgol Feithrin

Mae'r Ysgol Feithrin ar agor pump bore'r wythnos o 8.45 i 11.45. Yr ydym yn cymryd plant o ddwy oed ymlaen. Mae'r ysgol feithrin yn cynnig amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau mewn amgylchedd gartrefol. Am fwy o fanylion, ffoniwch (01570) 480639 a gofyn am Helen.

Diolch

Dymuna Denise, Pentop ddiolch o galon am y cardiau, arian a'r nwyddau a gefais ar fy mhen-blwydd yn ystod y mis. Diolch o galon.

Clwb Rygbi Llanybydder



Aelodau carfan Clwb Rygbi Llanybydder yn eu crysau newydd ynghyd â'u hyfforddwr a rhai o swyddogion y clwb.



Tegwyn Evans Maesgwyn Llanybydder yn cyflwyno crysau polo i Stuart Phillips capten carfan Clwb Rygbi Llanybydder.

Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 **01239 613746**

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpll.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

CFfI Ceredigion

Wel, wrth inni gau pen y mwdwl, ac ysgrifennu ein adroddiad olaf fel Aelod Hŷn ac Iau y mudiad, hoffai'r ddau ohonom, sef Angela a Carwyn, ddiolch yn fawr i staff a swyddogion y mudiad ac i bawb arall am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ma'i wedi bod yn flwyddyn a hanner a dymunwn bob lwc i'r rhai sydd yn ymgeisio am swyddi gyda'r sir.

Llongyfarchiadau i'r holl glybiau ac aelodau sydd wedi cystadlu yn ystod yr wythnos adloniant. Cewch y canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Cynhelir Gymanfa Ganu y Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc ar nos Sul 19eg o Fawrth yng Nghapel Mydroilyn am 7:30y.h. gyda lluniaeth ysgafn i'w ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

Digwyddiadau sydd i ddod: 15fed o Fawrth – Pwyllgorau'r Sir; 17eg o Fawrth – Dawns Dewis Swyddogion, Llanina; 19eg o Fawrth – Cymanfa Ganu y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc, Capel Mydroilyn; 27ain o Fawrth – Cwis iau y Sir; 1af Ebrill – Diwrnod Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru, Maes y Sioe Frenhinol; 5ed Ebrill – Hyfforddiant Stoc; 7fed Ebrill – Gala Nofio; 8fed Ebrill – Sialens 75 CFfI Ceredigion; 12fed Ebrill – Hyfforddiant Stoc; 16eg Ebrill – Diwrnod Hwylus Sul y Pasg; 19eg Ebrill – Pwyllgorau'r Sir; 21-23ain Ebrill – CCB NFYFC Torquay; 26ain Ebrill – Hyfforddiant Stoc; 29ain Ebrill – Diwrnod Maes CFfI Cymru.

Cystadlaethau Adloniant Sir Gâr a Cheredigion

Nos Wener 24ain Chwefror oedd uchafbwynt Cystadlaethau Adloniant Cymraeg Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr a Cheredigion. Wedi tair noson llawn chwerthin yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin a phum noson yn Theatr Felinfach, daeth y beirniaid i'w penderfyniad ynglyn â pha glybiau i gynrychioli'r siroedd yn rownd Cymru gyfan ym Mhort Talbot yn ogystal â chyhoeddi'r unigolion gorau.

Y beirniad yn Sir Gâr oedd Linda Jones, a Cefin Vaughan yng Ngheredigion lle cafodd y ddau dipyn o ben tost yn beirniadu oherwydd y safon uchel yn y ddwy sir.

Ymhlith clybiau ardal Papur Bro Clonc, roedd Cwmann a Llanllwni yn cystadlu yn Sir Gâr a Llanwenog yn cystadlu yng Ngheredigion.

Teitl adloniant Clwb Cwmann oedd "C.Ff.I Cwmann yn codi hwyl Cwm Hafan" lle gwelwyd aelodau'r clwb yn diddanu mewn cartref henoed. Cynhyrchwyd y perfformiad gan arweinyddion ac aelodau'r clwb eu hunain.

Noson yng nghwmni gofalwr Neuadd oedd gan Glwb Llanllwni. Gwelwyd amryw o westeion yn ystod y perfformiad yn ymarfer eu talentau. Y cynhyrchydd oedd Gary Davies.

Tra yng Ngheredigion, "Cynulleidfa gyda phlant yr ysgol" oedd gan Glwb Llanwenog. Sgript a baratowyd gan 'Bach o Bawb' yn y clwb gyda Pete Ebbsworth a'r criw yn cynhyrchu.



Sir Gaerfyrddin oedd y sir gyntaf i gyhoeddi canlyniadau tua 10.30yh. Rhannwyd gwobr Perfformwraig Orau dan 18 oed rhwng Lowri Voyle, Ffion Anderson a Marged Rhys o Glwb Llanddarog a'r

Perfformiwr Gorau o dan 18 oed oedd Osian Richards o Glwb Llangadog. Y Berfformwraig Orau o dan 26 oed oedd Siân Elin o Glwb Cwmann a'r Perfformiwr Gorau oedd Sam Jones o Glwb Capel Iwan. Dyma'r canlyniad ar ddiwedd y noson: 5ed Llangadog; 4ydd Llanddarog; 3ydd Llanllwni; 2il Capel Iwan; 1af Dyffryn Cothi.

Awr yn ddiweddarach, daeth canlyniadau Sir Ceredigion. Actor gorau dan 16 oed: 3ydd Dafydd, Troedysaur; 2il Daniel Owen, Llanddewi; 1af Owain a Bleddyn, Felinfach. Actores orau dan 16 oed: 3ydd Megan, Llangeitho; 2il Alaw Fflur, Felinfach; 1af Alaw Mair, Felinfach. Actor gorau dan 26 oed: 3ydd Gethin Hatcher, Llanwenog; 2il Iwan a Guto, Llanddewi; 1af Dewi Jenkins, Talybont. Actores orau dan 26 oed: 3ydd Martha Dafydd, Llangeitho; 2il Elin Haf, Llanwenog; 1af Elen Davies, Troedysaur. Cynhyrchydd gorau: 3ydd Llanddewi; 2il Felinfach; 1af Talybont. Sgript orau: 3ydd Felinfach; 2il Talybont; 1af Llanddewi. Perfformiad Technegol: 3ydd Lledrod; 2il Mydroilyn; 1af Pontsian. Dyma'r canlyniad ar ddiwedd y noson: 6ed Trisant; 5ed Troedysaur; 4ydd Pontsian; 3ydd Llanddewi; 2il Felinfach; 1af Talybont.

Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd enillwyr aelodau'r flwyddyn yng Nghaerfyrddin. Llongyfarchiadau i'r ddwy ganlynol o glybiau lleol am ennill yr anrhydeddau: Sioned Howells, Clwb Llanllwni yn Aelod Iau'r Flwyddyn a Carys Thomas, Clwb Cwmann yn Aelod Hŷn y Flwyddyn.

Cellan

Gwellhad Buan

Gobeithio erbyn hyn fod Osian Morgan, Yr Hen Rheithordy yn well ar ôl derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Gorsgoch

Cerddor Llwyddiannus

Llongyfarchiadau i Manon, Lan, Cynwyl Elfed (Maesygarth) ar basio gradd 8 ar y ffidil a gradd 8 ar y piano yn ddiweddar. Hefyd am gael ei derbyn yn aelod llawn o gerddorfa ieuenctid Cymru.

Gwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Sian, Bryn a Wil, Tawel ar farwolaeth mam-gu a hen fam-gu annwyl ym mherson Maggie Vaughan o Felinfach.

Hefyd danfonwn ein cydymdeimlad â theulu Tyngrug ganol yn dilyn colli ewythr a hen ewythr hoffus iawn o Lanybydder yn ystod y mis.

Cynulleidfa gyda – CFFI

Hyfryd oedd gweld gwahanol aelodau o Glybiau Llanwenog a Phontsian yn ymddangos ar lwyfan Theatr Felinfach yn ystod wythnos hanner tymor ac yn dangos eu doniau. Da iawn chi i gyd.

Pentrebach

Gwellhad Buan

Treuliodd Twynog Davies, Frondolau gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn dilyn ei driniaeth. Hyfryd yw deall eich bod adre yn cryfhau bob dydd.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus i Twynog Davies, Frondolau a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Fawrth 13eg. Dymuniadau gorau i chwi a mwynhewch y dathlu.

**Rhifyn Ebrill
yn y Siopau
6 Ebrill**

**Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
27 Mawrth**

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎ **01570 423135**
☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensiô
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

HURIO HEN LESTRI

Ar gyfer unrhyw achlysur



Te prynhawn

Priedas

Parti



Dathliad arbennig

Rhifau cyswllt

01570 480822 neu

07890 340958

nans1@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mis y Papur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Hanner awr a blynyddoedd y cylch tylwyth teg

Mae'r rhyfeddod blynyddol wedi digwydd eto – theatr lawn yn Felinfach am chwech noson a rhywbeth tebyg yng Nghaerfyrddin.

Wythnos adloniant y Ffermwyr Ifanc ydi un o uchafbwyntiau diwylliant Cymraeg yr ardaloedd yma, petai dim ond oherwydd yr ymdrech anferth y tu cefn i'r holl gynrychiadau.

O Dai Jones i Batman, o ganeuon Queen i ganeuon gwerin, o rapio i'r Charleston, roedd bydoedd hollol wahanol wedi eu cynrychioli a'r un math o amrywiaeth o ran perfformio - o ddawnsio i ddynwared.

Rhwng popeth, a rhwng y ddwy sir, mae'n ddigon posib bod rhywbeth tebyg i 1,000 o bobol wedi bod yn cymryd rhan a mwy wedyn, wrth gwrs, yn y cynulleidfaoedd.

Pe bai ymwelydd o wlad arall yn dod yma yn ystod wythnos hanner tymor y gwanwyn, mi fydden nhw'n meddwl yn sicr bod pethau Cymraeg yn ffynnu yn yr ardal. Ac, ar lawer ystyr, mi fydden nhw'n iawn.

Mae yna fywyd Cymraeg cry' o hyd, yn enwedig yn yr CFfl a hwnnw'n ailddyfeisio ei hun yn gyson wrth i un genhedlaeth adael ac un arall yn cymryd ei lle.

Ond y peryg ydi ein twyllo ein hunain i feddwl bod popeth yn iawn, na fedr dim fynd o'i le efo'r fath fywyd a bywiogrwydd. Ond eithriad ydi'r Ffermwyr Ifanc ac wythnos eithriadol ydi wythnos yr Hanner Awr.

Ar hyn o bryd, mae yna ddau ddiwylliant yn byw ochr yn ochr yn ein hardaloedd ni a'r ddau brin yn cyffwrdd, heblaw ym myd busnes a siopau, trwy chwaraeon ac yn ambell i dŷ tafarn. O fod y tu fewn i gylch tylwyth teg ein bywyd Cymraeg, mae'n hawdd peidio â sylwi ar yr hyn sy'n digwydd y tu hwnt iddo fo.

Dyna un o'r straeon gwerin mwya' cyson ... y syniad fod person yn cael ei ddenu i ganol cylch tylwyth teg, yn meddwl ei fod yno am noson ac wedyn yn mynd gartre' a gweld pob man wedi newid a hen ffrindiau wedi heneiddio neu fynd.

Ein fersiwn ni o gamu allan o'r cylch tylwyth teg fyddai sylweddoli'n sydyn fod pethau wedi gwanhau, niferoedd wedi cilio o dipyn i beth a llai a llai o bobol ar gael i gymryd rhan a chynnal pethau.

Pobol hŷn ydi llawer o'r mewnlifiad i'r ardaloedd yma, ond mae yna deuluoedd hefyd a'n hysgolion ni'n llwyddo, ar y cyfan, i'w dysgu nhw i siarad Cymraeg. Y cwestiwn ydi faint ohonyn nhw sy'n dod yn rhan o'r diwylliant Cymraeg, yn camu i'r cylch tylwyth teg.

Dyna her fawr ein cyfnod ni, yn y rhan yma o'r byd – ymhen cenhedlaeth, mae'n bosib iawn y bydd hi rhy hwyr.

Efo Brexit, mae yna beryg y bydd yna filoedd yn rhagor o bobol yn chwilio am gartrefi ymdddeol a mannau i ddianc, yng ngwledydd Prydain yn hytrach na'r Costa del Sol ac mae'r drefn economaidd yn golygu y bydd mwy a mwy o bobol yn cael eu gwrthio o'r dinasoedd i chwilio am gartrefi rhatach.

Yn aml, mi fydd Llywodraeth Cymru'n sôn am yr angen i gael plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, gan feddwl am blant y Cymoedd, sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg ac angen cyfleoedd eraill i ddefnyddio'r iaith.

Ond mae yna fersiwn debyg o hynny yn ein hwynebu ni ... creu gweithgareddau a gweithgarwch a fydd yn helpu siaradwyr Cymraeg newydd yr ysgolion cynradd i ddod yn rhan llawn o fyd yr iaith.

Mi allai ein cynghorau sir wneud llawer i helpu hynny, gan weithio efo'r mentrau iaith mewn meysydd fel chwaraeon a hamdden i wneud y Gymraeg yn rhan naturiol o fwynhad. Ac mae yna feysydd eraill, gan gynnwys roc a phop, lle mae yna fwllch i'w lenwi.

Mae angen dangos yr un dyfeisgarwch ag sy'n mynd i'r holl berfformiadau yn Felinfach a Chaerfyrddin ac mae angen gweithredu tra bo'r rhyfeddod yn parhau.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Daeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i gyflwyno hanes Harri Tudur i blant Cyfnod Allweddol 2 mewn ffordd ddiddorol a bywiog. Ymunodd Ysgolion Llanwnnen a Llanwenog â ni a chafwyd bore i'w gofio.



Aeth plant blynyddoedd 3 a 4 Ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd i Langrannog am ddwy noson. Cafwyd cyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau o farchogaeth i nofio i gwib gartio ond i enwi rhai ac hefyd cafwyd cyfle i gymdeithasu a chael hwyl.

Cafodd Luned Jones a Katy Moyes, sy'n Lysgenhadwyr Chwaraeon, eu hasesu yn ddiweddar gan Rhydian sy'n swyddog Chwaraeon y Sir. Rhoddodd ganmoliaeth i'r ddwy am eu gwaith yn hyfforddi eu cyfoedion i wella eu sgiliau ymarfer corff.

Aeth dau ddisgybl o flwyddyn 4 i'r Sgwad Serennu yng nghanolfan Addysg Felinfach. Bu cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu drwy greu stori ar y thema 'Ar lan y môr.'

Cynhaliwyd Gala Nofio cylch Llanbed yn ddiweddar. Cafwyd rasys gwych. Cafodd Luned Jones, Elan Jenkins, Katy a Lucy Moyes 2il yn y ras gyfnewid. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a gynrychiolodd yr Ysgol.

Cynhaliwyd rownd 2 Cogurdd sef rownd Ceredigion yn Ysgol Bro Pedr. Roedd dros ddeg ar hugain yn cystadlu, a llongyfarchiadau anferthol i Elan Jenkins am gael ei dewis i fynd ymlaen i'r rownd nesaf.

Bydd cyfarfod i drefnu dathlu addysg Ysgol Cwrtnewydd yn cael ei gynnal ar nos Fercher, Mawrth 8fed am 7.30y.h yn neuadd yr ysgol. Croeso cynnes i bawb a gwerthfawrogwn syniadau ar gyfer y trefniadau.

Cofiwch am ein cyngerdd Pigion Pasg a fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd yr Ysgol ar nos Fercher, Ebrill 5ed am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cyngerdd gyda'r Teulu

Yn ystod mis Chwefror fe gynhaliwyd noson arbennig iawn yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch gyda theulu Clyncoch. Cymerwyd rhan gan dair cenhedlaeth o'r teulu o'r ifanca i'r un hynaf. Gwelwyd y 4 brawd - Malcolm, Alan, Paul a Clive - yn diddori'r gynulleidfa gyda'u talentau. Bu criw Heno yn ffilmio i S4C ac roedd pawb wedi cael mwynhad yn y noson arbennig yma. Roedd elw'r noson yn mynd i Gronfa Ambiwlans Awyr Cymru a diolch i'r rhai hynny a gafodd y syniad o gynnal noson debyg ac i'r rhai fu wrthi yn trefnu.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				4	6
			3	6	7
					5
	4		3	5	7
			1	8	
3	9		7		8
1	5				
2			7	9	4
7	6				

Swdocw

Chwefror:

Llongyfarchiadau i Mair Hughes, Greenmeadow, Trefenter, ac i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Christina Morgans, Blaenfallen, Talsarn a Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder.

2	1	4	9	6	5	8	3	7
8	7	9	3	4	2	5	1	6
3	5	6	1	7	8	4	2	9
7	4	1	8	2	3	6	9	5
6	2	5	4	9	7	1	8	3
9	3	8	6	5	1	7	4	2
5	6	3	2	1	4	9	7	8
4	8	7	5	3	9	2	6	1
1	9	2	7	8	6	3	5	4



Cafwyd dechrau llwyddiannus i 2017 gyda'n haelodau yn teithio i amrywiol rاس ar draws Cymru. Aeth 3 aelod o'r clwb i Landudno i redeg yn ras Twin Piers 10k ar Ionawr 21ain. Ken Caulkett yn rhedeg mewn amser o 36.48 i'w osod yn 4ydd a 1af dynion 35; ei wraig Jenny yn rhedeg mewn 54.30 a Caryl Wyn Davies yn gorffen yn 10fed merch a 5ed merch agored mewn 45.03.

Ar yr un diwrnod yng Nghoed y Brenin, Dolgellau, cynhaliwyd hanner marathon "Buff winter trail Wales" gyda 5 o'r aelodau yn bresennol.



Gwelwyd rhai amserau gorau ar y cwrs wrth i George Eadon redeg mewn 1 awr 57 munud ac Eleri Rivers yn llwyddo i dynnu 8 munud oddi ar ei amser blaenorol mewn 2 awr 1 munud 29 eiliad a hynny yn ei gosod yn 6ed merch dros 40. Mick Taylor yn rhedeg y cwrs am y tro cyntaf mewn 2 awr 4 munud 34 eiliad tra bod Martin Darby wedi cwblhau'r cwrs mewn 2 awr 19 munud 25 eiliad. Un sy'n gyfarwydd iawn â'r cwrs yw Aneurin James a orffennodd y ras mewn 2 awr 20 munud 54 eiliad.

Yn agosach i dre ar yr 22ain o Ionawr, cynhaliwyd un o ddigwyddiadau Campau Caron sef y 5k, 10k a'r ras hwyl a hynny ar hyd Cors Caron. Bu Carwyn Thomas yn rhedeg y 10k a hynny mewn 39.37 a'i osododd yn 4ydd, tra bod Michael Davies wedi gorffen mewn 41.11 a Steven Holmes yn dynn ar ei sodlau mewn 41.25. Yn cynrychioli merched y clwb oedd Nicola Davies a orffennodd mewn 59.21 a Jane Holmes mewn 1 awr 3 munud. Yn rhedeg y 5k oedd Sion Price ac aelod newydd o'r clwb Gareth Hodgson ac roedd hi'n ras gyffrous iawn rhwng y ddau o'r dechrau i'r diwedd ond Sion gipiodd y fuddugoliaeth gan dorri record y cwrs mewn 16.18 a Gareth yn gorffen mewn 16.32.



Yng Nghrymch ar Ionawr 29ain cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol y "Team Pursuit". Daeth llwyddiant i Sarn Helen eleni eto gyda'r tîm cyntaf sef Sion Price, Dylan Lewis, Gareth Hodgson, Felipe Jones a Llewelyn Lloyd yn fuddugol; yr ail dîm yn gydradd 3ydd a'r 3ydd tîm yn 10fed. Gorffennodd tîm y merched yn 3ydd.

Nôl yn Nhregaron ar Chwefror y 12fed, cynhaliwyd Hanner Marathon Cors Caron, gyda dau o aelodau'r clwb, Michael Davies a Mick Taylor ymysg y trefnwyr. Mae'r ras hon yn profi ei phoblogrwydd gyda chynifer y rhedwyr ac eleni cafwyd y nifer fwyaf o redwyr hyd yn hyn sef 144,

gyda sawl gwobr yn dychwelyd i'r Clwb. Sion Price oedd rhedwr cyntaf y clwb i groesi'r llinell derfyn yn y 4ydd safle a hynny mewn 1.18.02, dros funud yn gynt na'i amser llynedd. Cipiodd Gareth Payne categori'r dynion dros 40 mewn 1.20.46, Richard Marks yn ennill categori'r dynion dros 60 mewn 1.35.41 a Murray Kisbee yn 2il mewn 1.37.28, Caryl Wyn Davies yn 3ydd merch agored mewn 1.38.01 a Delyth Grimes y 2il ferch dros 45 mewn 1.54.34. Aeth y gwobrau i'r rhedwyr lleol hefyd i ddau o'n haelodau sef Caryl Davies a Michael Davies (1.32).

Aelodau eraill y clwb i gymeryd rhan oedd Gareth Hodgson 1.19, Dylan Lewis 1.24.32, Simon Hall 1.24.43, Carwyn Davies 1.26, Nigel Davies 1.29.14, Steven Holmes 1.29.24, Mark Rivers 1.36, Dee Jolly 1.38, David Thomas 1.40, Mick Taylor 1.41, Eleri Rivers 1.47, Mitchell Readwin 1.49, Andrew Edgell 2.01, Dorian Rees 2.07, Bronwyn Coltman 2.12, Jane Holmes 2.25 ac Emma Gray 2.42.

Yn cynrychioli ieuenctid Sarn Helen yn ras hwyl Campau Caron ar Ionawr 22ain oedd Rhys Williams, y rhedwr cyntaf nôl, gyda Rhodri Gregson, Sean Wood a Nia Williams yn rhedeg ras dda.

Rhedwyr Ras Cors Caron



Gohebiaeth



Garddio a mwy

Mae'r gyfres 'Garddio a mwy' yn dychwelyd i S4C yn y gwanwyn. Y tro hwn, bydd ein garddwyr, Iwan a Sioned Edwards yn ymadael yn achlysurol â'u gardd yn Sir Ddinbych i gynnig help llaw i arddwyr sy'n chwilio am gymorth i gwblhau rhyw joban neu'i gilydd yn yr ardd.

Yn ogystal â gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grwpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Ac ar wahân i'r garddio, mae eitemau sy'n hybu ein gwerthfawrogiad o'r natur sydd o'n cwmplas yn rhan allweddol o'r gyfres wrth gwrs, gyda phwyslais arbennig ar gadwraeth. I'r perwyl yma, bydd Meinir Gwilym unwaith eto yn ymweld â lleoliadau difyr, i gyfarfod ag unigolion neu grwpiau, ac i ryfeddu ar rywogaethau – planhigol ac anifeilaidd!

Felly, yn arddwyr neu'n naturiaethwyr, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad os oes unrhywbeth yr hoffon nhw eu rhannu.

Dylid ehostio garddioamwy@cwmmida.tv, ffonio 01286 685300.

Eisteddfod y Dysgwyr

Eleni cynhelir Eisteddfod y Dysgwyr Ceredigion yn Theatr Felin-fach, ac mae gwahoddiad i holl ddarllenwyr i gefnogi ymdrechion y sawl sydd wrthi'n dysgu'r iaith. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi diddordeb Cymry yn eu gwaith caled ac yn croesawu'r cyfle i gwrdd â siaradwyr Cymraeg rhugl.

Ar 31 Mawrth, o 6 tan 10 y.h., bydd cystadlaethau o bob math i'w mwynhau, gan gynnwys cystadlaethau llwyfan, cyfansoddi, a chelf. Nid yn unig dysgwyr sy'n cael cymryd rhan; mae cystadleuaeth y Grŵp Canu, rhwng 3 a 9 mewn nifer, yn agored i Gymry rhugl a dysgwyr, a'r gystadleuaeth ysgrifennu tair stori i ddysgwyr Lefel Canolradd hefyd yn agored i bawb.

Os dymunwch gystadlu, cysylltwch â Meryl Evans, Canolfan Iaith Ceredigion, Campws Felin-fach, 01545 572 715, ciowfa@ceredigion.gov.uk

Cwmsychpant



Cafwyd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng Nghapel y Cwm yn ddiweddar gyda'r plant a'r ieuenctid yn cymryd rhan.

Cwmann



Llwyddodd Cyngor Eco Ysgol Carreg Hirfaen i ennill y wobwr Platinwm Eco-Sgolion yn ddiweddar. Dyma'r wobwr uchaf sy'n cael ei dyfarnu. Gweithiodd y Cyngor Eco yn galed ar amrywiaeth o wahanol broiectau amgylcheddol er mwyn ennill y statws. Yn y llun mae Mrs Nelian Williams (arweinyddes y project), Seren, Rhodri, Jessica, Robert, Efan, Marged, Hari, Lois, Ellie a Cian.

Sefydliad y Merched

Ein cyfarfod cyntaf yn 2017 oedd ymweld â'r Parlwr Pinco yn Stryd y Coleg, Llanbed. Croesawyd pawb gan ein llywydd Mary Davies a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb. Yna cyflwynodd y noson i Anthea Jones, perchennog y parlwr. Dywedodd Anthea ei bod yno ers dwy flynedd, ac roedd ganddi saith yn gweithio. Cafwyd ychydig o hanes beth oedd ymlaen ganddynt o ddydd i ddydd. Dywedodd Anthea eu bod yn prynu'r nwyddau i gyd o Gymru. Bethan oedd yn lwcus i ddarganfod y seren o'r bag i gael ei hwyneb wedi harddu. Cawsom ein tywys i weld pedair ystafell therapi ganddynt ac ychydig o hanes amdanynt. Tra bu Bethan yn cael triniaeth, cafodd aelodau eraill eu dwylo wedi 'masago'.

Diolchodd Bethan i Anthea a'r merched am noson bythgofiadwy, ac hefyd am y te a'r bisgedi ar ddiwedd y noson.

Croesawyd pawb i'r Ganolfan ym mis Chwefror gan ein llywydd Mary Davies, aeth ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd Rob Holden, Caws Hafod, Bwlch Gwerne, Llwyngroes. Soniodd eu fod wedi gweithio i Caws Gorwydd, ond erbyn hyn roedd yn cyflogi pedwar. Roedd ganddo luniau diddorol o'r dull gwneud caws, dywedodd mai bob yn ail ddydd y byddai yn gwneud caws, a'i fod yn prynu'r llaeth yn lleol. Hefyd, roedd ganddo lawer o hen lyfrau rysâit am y gwahanol math o gaws er mai dim ond un math o gaws oedd yn ei gynnyrch, sef mature. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Joyce a chawsom i gyd flasu'r cynnyrch.

Enillwyd y raffl gan ein llywydd Mary.

Cafwyd cyfarfod busnes i ddilyn. Cydymdeimlwyd â Helena a Bryn ar golli brawd Bryn.

Dydd Sadwrn, Chwefror 25ain – Parêd Gŵyl Ddewi yng

Nghaerfyrddin – roedd Gwyneth, Mary, Elma a Morfudd â diddordeb.

Ffair Wanwyn – Dydd Sadwrn, Ebrill 8fed Ysgol Brenhines Elisabeth, Johnstown – Mary ac Elma â diddordeb.

Cyfarfod mis Mawrth: dathlu Gŵyl Dewi yn yr Hedyn Mwstard.

Priodi

Llongyfarchiadau i Nerys Douch a Rhodri Beaumont a briododd yn Eglwys St Iago yn ystod y mis. Pob dymuniad da yn eich bywyd priodasol.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Malcolm a Sharon a'u teuluoedd ar farwolaeth eu tad, John Gregson, 47 Heol Hathren. Hefyd â Bryn Gregson a'r teulu, Werna ar golli ei frawd.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Stan a Vivienne Evans, Coedywaun, Parc-y-rhos ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Clwb 225 – mis Ionawr

1. Carol Doughty, Caris, Cwmann, 38. 2. Owain a Bethan Jones, Trewerin, Cwmann, 8. 3. Eirian Jones, Mark Lane Cafe, Llanbed, 5. 4. Emyr Hargreaves, 17 Heol Hathren, Cwmann, 98. 5. Sion a Kathy Griffiths, Brynyreglwys, Llanbed, 37. 6. John James, Maesteg, Cwmann, 87. 7. Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann, 133.

Taith Dros Fywyd

Bydd Philip Lodwick yn trefnu taith gerdded hwylus ar y 23ain Ebrill er mwyn codi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru. Bydd y daith yn dechrau am 10.30yb o'i gartref, sef Penrhyn ger Ysgol Carreg Hirfaen. Cofiwch ddod i gefnogi a mwynhau bore o gerdded ar hyd lwybrau lleol.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Evan Davies, neu Evan Siop fel oedd pobol y pentref yn ei adnabod. Daeth Evan i Llanfair i ffermio gyda ei deulu yn Fferm Pentrelan yn y pumdegau. Bu hefyd yn gweithio am dipyn ar Fferm Pentre ac ar ffermydd lleol cyn cwrdd a phriodi â Monica a symud i fyw i Gerrig y Drudion. Pan ddaeth siop Llanfair yn rhydd penderfynodd y ddau gymryd at y busnes lle buont am bron ugain o flynyddoedd ac yno codi tri o blant, David, Linda a Huw. Wedi amser hapus yn y siop, penderfynu ymddeol a phrynu Tŷ'r Ysgol ar ôl i ysgol y pentref gau ynghanol y saith degau. Wedi peth amser symud wnaethant i Lanbed lle cafodd Evan waith yn y coleg. Bu yn weithgar iawn dros lawer o flynyddoedd yn helpu gydag elusen Blithewood. Roedd yn aelod ffyddlon yng nghapel yr Efengylwyr yn Llanbed, ac yn bersonoliaeth diddorol a chyfeillgar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â David, Linda a Huw a'u teuluoedd.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth annisgwyl Lorna Jenkins, Penlan a fu farw pan gafodd drawiad ar y galon pan ar ei ffordd i siopa yn Llanbed. Er i'r paramedics weithio yn galed iawn i arbed ei bywyd, methu wnaethant. Roedd Lorna yn ddim ond 46 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Lorna.

Newydd trist arall oedd clywed am farwolaeth John Gregson yn 72 oed. Roedd John wedi ei fagu yn Offis Fawr (Clydogau Cottage), yn fab i Alf a Betty, a brawd i Marian a Bryn. Ar ôl priodi bu John yn byw yng Nghwmman, lle y bu yn gweithio yng ngarej Cwmann am flynyddoedd tra y bu y garej ar agor. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

Gwellhad

Mae'n bleser cael croesawu Sarah Evans adref yn dilyn cael llawdriniaeth ar y galon. Dymunwn wellhad cyflawn iddi.

Bingo

Ar nos Wener, Chwefror 17eg cynhaliwyd noson o Bingo yn y neuadd pan ddaeth tua deg ar hugain ynghyd, er dim cymaint ag arfer. Cafwyd hwyl gan bawb gyda llawer wedi ennill gwobrau bach a Daniel a Brynmor yn lwcus dros ben. Diolch i Dai Davies a Mel Jones am arwain y noson gyda phawb wedi joio.

Elusen 'Blood Bikes'



Ar nos Lun, Chwefror 20fed, daeth Chris a Medwyn, dau gynrychiolwr o Blood Bikes Cymru, i gyfarfod pwyllgor y neuadd i dderbyn sic o £550. Hwn oedd y swm a gasglwyd pan allan yn canu carolau o amgylch y pentref cyn y Nadolig ac yn y gwasanaeth carolau yng Nghapel Mair. Mae tîm y Blood Bikes yn hollol ddibynnol ar gyfraniadau gwirfoddol ac yn arbed swm sylweddol i Fwrdd Iechyd Cymru.

Beth sydd nesaf?

Mawrth 4ydd - Cawl a Chwist; Mawrth 24ain - Cwis; Helfa Drysor Moduron - Mis Mai dyddiad i'w gyhoeddi; Gŵyl Gwrw - Mehefin 1-3ydd.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith Papur Bro Clonc a Gwefan Clonc360

Cysylltwch ag ysgrfennydd@clonc.co.uk

Beth am fod yn ohebydd neu'n olygydd?
Neu uwchlwytho fideos Cymraeg o ddigwyddiadau?



Bu Ifan Meredith bl. 6 yn coginio ar gyfer rownd sirol Cogurdd.



Cafodd disgyblion Bro Pedr ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel archarwyr a gwneud gweithgareddau amrywiol - tipyn o sbort.



Cafodd Megan Morris bl 3 ei dewis fel rhan o gast Cwmni Opera Caerfyrddin.



Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd a gorffen yn bedwerydd – da iawn chi a diolch i Miss Nia Davies am hyfforddi.



Llongyfarchiadau hefyd i Gwennlian Jenkins, blwyddyn 11 sydd wedi cael ei dewis i'r fainc ar gyfer tîm Merched dan 18 y Scarlets oedd yn chwarae yn erbyn yr Ospreys ar ddydd Sul Chwefror 12fed.

Campws Iau

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ar ymweliadau yn yr Orsaf Dàn a'r Orsaf Ambiwlans fel rhan o'u thema y tymor yma sef archarwyr, a diolch yn fawr i'r staff i gyd am y cyflwyniadau diddorol ac am y croeso.

Daeth y Canon Andy i'r ysgol i gynnal gwasanaeth a chafwyd neges bwrpasol ganddo yn ogystal â dysgu

caneuon i gyfeiliant y gitâr – diolch iddo.

Cafodd rhai o ddisgyblion yr ysgol y cyfle i fynychu Sgwad Sgwennu yn Felinfach sef Megan, Arlo, Lowri, Sion-Ifan, Caitlin, Cerys Angharad a Tomos a chawsant eu sbarduno i ysgrifennu storïau. Diolch am y cyfle.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 y cyfle i wyluo sioe "Nid fi" a berfformiwyd gan Gwmni Theatr Arad Goch. Roedd y perfformiad yn wych yn ôl yr arfer.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn y dosbarthiadau ar ddiwrnod e-ddiogelwch yn ddiweddar er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o fod yn ddiogel ar y we.

Campws Hŷn

Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o Eisteddfod y campws hŷn eleni. Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ gyda Teifi'n cipio'r brif wobr ac yn ennill yr Eisteddfod.

Y beirniaid eleni oedd Delyth Hopkins Evans (Cerdd), Lowri

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphtorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Eboost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Llongyfarchiadau mawr i ddau o fechgyn blwyddyn 11, sef Ryan Mackie Jones ac Ewan Bowden, am gychwyn ar gyfer Scarlets West Dan 16 oed ar Chwefror 9fed yn Baglan yn erbyn Ospreys East.

Yng ngala nofio'r cylch gwnaeth y disgyblion yn arbennig o dda gan gipio'r darian am y ras gyfnewid ac hefyd y darian i'r ysgol mwyaf ei maint. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymeryd rhan a diolch yn fawr i Mr Wyn John am drefnu.



Un o weithdai ABCh ar gyfer blynyddoedd 8 ac 11 oedd creu addurniadau Nadolig er mwyn codi arian ar gyfer Canolfan y Bont. Hoffem ddiolch i bawb oedd wedi archebu addurn Nadolig, llwyddwyd i godi £337 i Ganolfan y Bont.

Disgyblion Busnes Blwyddyn 10 yn cystadlu yng Nghaerdydd yn y Coca Cola Business Challenge. Cafwyd diwrnod arbennig o dda yn gweithio mewn tîm, datrys problemau, gweithio dan amodau 'deadlines' a gwneud cyflwyniadau. Da iawn chi – gwaith caled iawn!

Gregson (Llefaru) gyda Eurig Salisbury'n beirniadu cystadlaeth y Gadair a Phill Higginson yn beirniadu cystadlaeth y Goron. Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y beirniaid at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Testun y Gadair eleni oedd 'Aberth'. Enillwyd y Gadair gan Twm Ebbsworth o dŷ Teifi, gyda Nest Jenkins o dŷ Dulas yn ennill yr ail a'r trydydd safle. 'Walls' oedd thema cystadlaeth y Goron. Twm Ebbsworth o dŷ Teifi oedd hefyd yn fuddugol yng nghystadlaethau y Goron, dyfarnwyd Julianna Barker o Deifi'n ail a Cerian Jenkins o dŷ Dulas yn drydydd.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Shaun Morgans a Cerys Lewis (Creuddyn); Ifan John Davies a Manon Williams (Dulas); Twm Ebbsworth ac Alpha Evans (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 616 o bwyntiau, Dulas yn ail gyda 417 a Creuddyn yn drydydd gyda 369 o bwyntiau.

Nos Iau, Chwefror 16eg, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wled amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgets, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnio disgo - rhywbeth at ddant pawb!

Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrllwm afieithus y disgyblion. Talodd y prifathrawes, Mrs Jane Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd am drefnu a goruchwyllo'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Nest Jenkins ac Alwyn Evans am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Cerys Potter Jones a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol.

Yn wir, diolch i bawb a sicrhodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Y Gerdd Fuddugol:

Maes B, 2016

(I ddiolch i bobl y Fenni am eu haberth i gynnal yr Eisteddfod)

Hen dir digon diffaith
a'i draffordd o ffin
yn lapio ei chyfeiri.
"Sorry, mate
Never heard of it"
yw'r croeso cras.

Daw haid o bebyll,
yn gleber amryliw o gyffro a gwefr,
yn swatio'n dynn,
yn gwmni o Gymreictod.

Gwead o acenion,
A'u "drycha 'ma" ac "yli mêt"
yn briodas o barablu.

Ymlwybro o dân i dân,
a chymansa o gitâr
yn canu mawl, yn codi hwyl.
Curiadau'n gymar
i gryman o leuad.

Wilibowan tan y wawr,
ac atsain y gig yn nhrydar y bore-godwyr.

Gwaddol gobaith sy'n gymysg
â'r porfa pwdwr a'r portaloos.

1af: 'Geiban' - Twm Ebbsworth (Teifi)

Llanbedr Pont Steffan



Swyddogion Grŵp Trafod Llanbedr - John Davies, Trysorydd, Anwen Hughes, Cadeirydd ac Aneurin Davies, Is-gadeirydd yn cyflwyno sic o £100 i Medwyn Parry, Cynrychiolydd Rhanbarth, Beiciau Gwaed Cymru. Y tu ôl iddynt mae marchogwyr y beiciau a'u tîm cefnogwyr o Gangen Aberystwyth. Cyflwynwyd y sic yng Nghlwb Rygbi Llanbedr.

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan yng Nghlwb Rygbi'r dref ar nos Iau'r ail o'r mis. Daeth nifer dda o'r aelodau allan ar noson arw i gael eu diddanu gan y gŵr gwadd, y ffermwr a'r digrifwr adnabyddus Ifan Gruffydd Jones, neu Ifan Tregaron. Yn ffigwr cyfarwydd ar y sgrin deledu ac ar lwyfan y noson lawen, prin fod angen dweud y cafwyd noson ddifyr dros ben yn ei gwmni.

'Lan i Heno' oedd testun Ifan ac aeth ati i roi cipolwg yn ôl dros ei fywyd gydag ambell i stori a jôc. Dywedodd mai o brofiadau, atgofion a digwyddiadau ei fywyd ef ei hun y daw ei ddeunydd fel comediwr a'i fod yn ddiolchgar ei fod yn meddu ar y cof da sy'n hanfodol i ddal gafael ar yr argraffiadau hyn ac i'w cyflwyno ar ei draed o flaen cynulleidfâ. Wrth iddo sôn am ei blentynnod a'i ddyddiau ysgol yn Nhregaron cafwyd sawl enghraifft o'i allu i ddistyllu hiwmor o helyntion bywyd.

Aeth ymlaen i sôn am ei yrfa fel diddanwr proffesiynol. Clywyd fel y bu Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr ym 1984 yn drobwynt pwysig iddo wedi cyfnod o afiechyd a'r modd y daeth (trwy law gudd a chymwynasgar Gwilym Tudur, Siop y Pethe) i gysylltiad â Huw Jones S4C. Arweiniodd hynny at ei gyfres deledu ei hunan a'r cyfle i weithio gyda Gillian Elisa ac eraill ymhlith sêr y byd adloniant. Er hynny, diddorol oedd clywed ganddo gymaint y mae'n gwerthfawrogi'r ffaith iddo lwyddo i barhau i fyw ar ei delerau ef ei hun yn ei filltir sgwâr tra'n llwyddo hefyd i gynnal y fath yrfa. Mewn teyrnged i'w ragflaenydd enwog cafwyd darlenniad gan Ifan o waith Eirwyn Pontshan cyn gorffen gyda rhigwm amserol o'i waith ei hun, 'Rwyf wedi cael digon ar wyna!'

Rhoddwyd gair o ddiolch i Ifan gan Mr Eric Williams am noson

gofiadwy o hiwmor Cymreig. Daeth y Llywydd, Mr Aneurin Jones, â'r cyfarfod i ben gan longyfarch Mr Kees Huysmans ar ei wahoddiad i ganu yn Awstralia.

Gwahoddir gwagedd a chyfeillion yr aelodau i gyfarfod Noson Gŵyl Dewi'r Cylch ar nos Iau'r ail o Fawrth yng Nghlwb Rygbi'r dref pan groesawir Bois y Gilfach i ddod â thymor y Cylch i ben.

Oedfa'r Ifanc

Cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa ar Sul y Mamau sef 26 Mawrth am 5 o'r gloch yng ngofal yr Ysgol Sul. Cymerir rhan gan y plant a'r bobl ifanc ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phob teulu sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Janet, Haulfryn, 1 Maesyllan ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y llw cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Diolchir yn arbennig i rieni a phlant Ysgol Sul Noddfa am drefnu parti syrpreis ardderchog ac am y gacen a'r anrhegion heb anghofio'r gacen syrpreis arall gan Aelwyd yr Urdd. Diolch o galon i chi i gyd a gyfrannodd at ben-blwydd i'w gofio.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar 24 Ionawr yn Ysgol Bro Pedr. Trefnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor. Yna cymerwyd rhan mewn gêmiau o bob math i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen yng ngofal Sian Elin ac fe ddatgelwyd sawl cyfrinach yn ystod y noson!! Diolchodd Beca Jenkins i Sian Elin am baratoi noson ddifyr iawn ar ein cyfer. Atgoffodd Janet yr aelodau



Aelodau Aelwyd Llanbedr gyda chacen pen-blwydd syrpreis i Janet Evans ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

am ymarferion y partiïon deusain a'r llefaru ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

Daeth yr aelodau ynghyd i'r ail gyfarfod ar Nos Fawrth 7 Chwefror. Croesawyd Rhydian swyddog datblygu cynorthwyol yr Urdd yng Ngheredigion gan Elan a threuliwyd orig llawn hwyl a sbri dan ei gyfarwyddyd yn cymryd rhan yn y gamp Cyrlio. Roedd ambell un yn gystadleuol a brwdfrydig iawn! Talodd Sioned ei gwerthfawrogiad ar ran yr aelodau i Rhydian am noson arall lwyddiannus.

Cyn diwedd y cyfarfod cafodd Janet syrpreis enfawr wrth weld Llinos ac Amanda, dwy o'r rhieni, yn cyrraedd gyda chacen pen-blwydd iddi. Wedi'r sioc diolchodd Janet i bawb ac yna bu pawb yn mwynhau darn o'r gacen.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd Elin wedi bod yn diddori'r aelodau ac i gloi'r tymor cynhelir noson o gystadlaethau hwyliog gyda beirniaid o fri ar 14 Mawrth. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Eisteddfod yr Urdd

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanbedr yn Ysgol Bro Pedr ar 16 Mawrth am 1.30 p.m. Y beirniaid eleni yw Lona Brierley ac Emyr Wynne Jones yn yr adran gerdd a Mair Wyn ar y llefaru. Lowri Steffan fydd yn cloriannu'r cystadlaethau theatrig. Y cyfeilyddion yw Eirian Jones a Lois Williams a'r llywydd yw Anthea Jones. Cynhelir y rhagbrofion yng nghapel a festri Brondeifi gan ddechrau yn brydlon am 8.45 a.m.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Braf oedd cyfarfod am Ginio Blynnyddol yr Urdd ar noson oer a gwyntog ddiwedd mis Ionawr yng nghwmni ffrindiau a gyda'n Gŵr Gwadd, Ioan Wyn Evans. Mae Ioan Wyn yn adnabyddus i wylwyr S4C fel cynhyrchydd drwy raglenni fel Byd ar Bedwar. Yng nghylch Urdd y Benywod mae yn fwy enwog fel Mab y Mans, sef mab hynaf Beti a Goronwy Evans.

Roedd Ioan Wyn wedi dod i siarad â ni am ei brofiadau fel cynhyrchydd a chyflwynydd ac am y bobl a gyfarfu yn ystod ei yrfa. Fe glywsom am hen newyddiadurwyr y Cambrian News fel Doug Wright a Peter Roberts a oedd wedi dysgu'r grefft a'r sgiliau o ddarganfod a dweud stori'r newyddion a sut mae cyfathrebu â phawb er mwyn clywed eu hanes. Ar "Stondin Sulwyn" cafodd gwers mewn darlledu gan Sulwyn Thomas a'r cyfle i gwrdd â chymeriadau fel Dai Jones a Ray Gravell. Un o'i hoff straeon oedd ateb Ray i'r reff am gosb ar ôl tael hwyr, sef "I got there as quickly as I could!"

Noson hwylus tu hwnt, fel y gallwch ddychmygu. Ond soniodd Ioan Wyn hefyd am fynd i Sri Lanka ar ôl y tswnami er mwyn rhoi gwybod i bobl Cymru am y digwyddiad erchyll yna. Ailadroddodd beth ddywedodd cynrychiolydd Achub y Plant ar y pryd am effaith y tswnami: "mae Aberfan yn bob un pentref yma." Mae'n glir bod diddordeb mewn pobl yn ysbyrdoli ein gŵr gwadd. Mae hyn yn dangos yn ei brosiect diweddar o helpu D.T. Davies i droi ei atgofion am ddianc oddi wrth y Natsïaid yn ystod yr Ail Rhyfel Byd i lyfr hunangofiant, Dianc i Ryddid (neu Escape to Freedom yn y fersiwn Saesneg). Gwelir pobl ar eu gorau a'u gwaethaf yn y llyfrau yma.

Rhoddwyd y diolchiadau gan ein Is-lywydd, Margaret Jones, gan dalu teyrnged i Ioan Wyn Evans fel newyddiadurwr o'i droed i'w ben sydd wedi gweld y lleddf a'r llawen ac wedi trosglwyddo ei brofiadau i ni. Noson bleserus iawn yng nghwmni siaradwr diddorol a dawnsus oedd barn y cwmni oll. Rhoddodd Margaret ddiolch i Delyth a'i chriw hefyd am bryd mor safonol a blasus a'r croeso cynnes ar noson oer a diflas y tu allan.

Braint mawr arall oedd croesawu Anwen Batten i siarad â'r Urdd ar Chwefror 9fed. Roedd yn agoriad llygad i glywed am ei gyrfa ym myd bowlïo. Heblaw ei mam a'i merch

Llanbedr Pont Steffan



Cyflwynwyd sic o £2,465.00 i Medwyn Parry, Cynrychiolydd Rhanbarth, Beiciau Gwaed Cymru yng Nghlwb Rygbi Llambled yn ddiweddar. Roedd yr arian yn rhoddion er cof am y diweddar Mrs Ceinwen Jenkins, (Tyllwyd) Ceulan, Llambled a fu farw'n ddiweddar. Cyflwynwyd y sic gan ei hŵyr ieuengaf Elis Jenkins ynghyd â wyresau eraill. Y tu ôl iddynt mae Beiciwyr Gwaed Cynru, Cangen Aberystwyth a'u tîm cefnogi. Dymuna'r teulu ddiolch i'r cyfranwyr oll am eu haelioni.

Alys, fyddai gan neb yn y gynulleidfa unrhyw syniad am yr amser a'r gwaith sy'n mynd i baratoi ar y lefel rhyngwladol lle mae Anwen yn cystadlu. Yn ogystal â bowlïo, roedd pawb yn edmygu'r ffaith bod Anwen yn gweithio fel nyrs yn arbenigo mewn triniaeth canser y pen a'r gwddf. Bellach, mae hi yn wraig ac yn fam. Superwoman go iawn!

Mae bowlïo yn bwysig i'r holl deulu. Yn 1988 enillodd Anwen a'i mam Anita gapiau i Gymru yn chwarae ar yr un tîm, y tro cyntaf i hyn ddigwydd. Yn 2016 digwyddodd hyn eto pan gafodd Anwen a'i merch Alys gapiau i Gymru. Mae brawd Alys, Harri, hefyd yn chwarae i dîm cenedlaethol Cymru. Fe allwn i gyd ymfalchïo yng nghlwb bowlïo Llambled oherwydd mae pump aelod o'r clwb yn chwarae i Gymru, ac mae Anwen wedi cael ei hethol yn Gapten i'r sgwad. Ym mhencampwriaeth y byd llynedd daeth Cymru yn ail i Awstralia allan o 29 gwlad. Mae Anwen wedi teithio i India, Hong Kong, De Affrica, Cyprus, Sbaen, Awstralia a Seland Newydd ac wedi cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad nifer o weithiau. Mae'r wefr o gystadlu gyda chwaraewyr o bob sbort yn gyffrous iawn, yn ôl Anwen. Roedd Gemau'r Gymanwlad yn Delhi yn 2010 yn brofiad bythgofiadwy; mae India yn wlad mor wahanol i Gymru.

Yn ogystal â chadw lefel uchel o ffitrwydd i chwarae ar y lefel rhyngwladol, ymarfer ar borfa a charped, chwarae mewn gwres, oerfel a gwynt, bydd y tîm yn paratoi yn seicolegol ar gyfer teithio. Yn ogystal a bwyd gwahanol, camerâu yn agos a bowlïo yn y nos gyda llifolau, mae'r chwaraewyr yn dod ar draws digwyddiadau hynod mewn gwledydd tramor fel chwilod enfawr yn taro'r bowl! Wedi dod yn ôl i Gymru, rhaid i'r chwaraewyr roi cyfweiliadau i hysbysebu'r gêm, a bod

yn barod i gael prawf cyffuriau - peth sy'n gallu digwydd unrhyw bryd. Mae hyd yn oed lemsip yn effeithio ar y canlyniadau. Mae pwysau mawr i ennill medalau. Os na fydd y tîm yn llwyddiannus, ni fydd Chwaraeon Cymru yn ariannu bowlïo.

Ond mae Anwen wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac wedi dod â nifer fawr o fedalau yn ôl i Llambled. Talodd deyrnged i'w mam, Anita, sydd wedi cael ei hanrhydeddu fel Hyfforddwraig y Flwyddyn ac sydd bellach yn un o selectwyr Cymru.

Wrth dalu'r diolchiadau dywedodd Beti Evans fod y gymuned oll yn falch iawn o Anwen a'i theulu. Roedd dawn Anwen yn enfawr, a'i hymroddiad yn esiampl i bawb. Rydym yn ffodus iawn o gael llysgennad mor eithriadol i gynrychioli Cymru.

Cyfarfod nesaf yr Urdd: Mawrth 9fed, Te Prynhawn yn yr Hedyn Mwstard yn dechrau am 3:00y.h.

Noddfa

Mae Noddfa yn eglwys Gymraeg sy'n croesawu Cymry Cymraeg a Dysgwyr i ymuno gyda ni yn ein holl weithgareddau. Rydym am i bobl y dref hon a'r ardal hon glywed am gariad Duw, a gyda'i gymorth ef, wrth inni ddilyn yr Arglwydd Iesu Grist, rydym yn ceisio dangos y cariad hwnnw yn y ffordd rydym yn ymwneud â'n gilydd ac â'n cymdogion yn y dref. Gallwch gael gwybodaeth am weithgareddau Noddfa yn gyson drwy ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar, neu drwy ymuno â'r grŵp Facebook 'Noddfa'.

Mae trefniadau'r eglwys o fis i fis yn cael ei ymddiried i ofal y swyddogion a'r diaconiaid ac o bryd i'w gilydd wrth fod rhai yn cwblhau eu gwasanaeth mae cyfle yn dod i weld pa ddarpariaeth mae Duw yn ei wneud ar ein cyfer i'r dyfodol. A chyfnod felly sy wedi bod yn hanes



Yn ystod un o'r sesiynau Bingo, sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd yn Nhafarn Castle Green, gan aelodau Cyn ddiffoddwyr Tân Llambled cyflwynwyd sic am £250 i Sian Roberts-Jones ar ran Cronfa Raymond Roberts ar gyfer y gwaith ymchwil i Glefyd Niwronau Motor gan Eric Williams a Gerwyn Jones, Cadeirydd. Hefyd cyflwynwyd swm o £50 gan Gyngor Cymuned Pencarreg i'r Gronfa.

Noddfa dros y misoedd diwethaf, felly gyda llawenydd mawr, a diolchgarwch diffuant, mae'n dda gennym rannu'r newyddion am y newidiadau hyn. Ar ddechrau'r mis bach daeth pobl Noddfa ynghyd gyda chryn ddisgwyliad i'r oedfa gymun. Yn ôl ein harfer buom yn llawenhau yn addewidion Duw, ond y tro hwn roedden ni'n cymryd y cyfle hefyd i gydnabod gwaith dau o'n selogion diwyd wrth iddyn nhw ymddeol, ac i groesawu aelodau ewyllysgar i'r gwaith o'r newydd.

Diacon a Swyddog yn ymddeol - Bu Mr John Morgan yn gwasanaethu fel diacon ers 1981, ac yn uchel ei barch gan aelodau'r eglwys. Ar hyd 35 o flynyddoedd, bu calon John yn y gwaith, a bu'n gefn i weinidogaeth yr Arglwydd ac i'w weinidogion. Er bod John wedi dymuno ymddeol o'i waith fel diacon, mae'n hyfrydwch i'r eglwys ei fod wedi bodloni i barhau fel diacon anrhydeddus.

Daeth y newydd hefyd fod Mr Derek Evans yn dymuno ymddeol o'i waith ef fel Swyddog Iechyd a Diogelwch. Bu Derek wrth y gwaith oddi ar 2003, yn gydwybodol ac yn raenus, a'i arweiniad yn ddoeth ac yn gadarn. O dan ofal Derek y cyflawnwyd y newidiadau diweddaraf yn Noddfa pan fu'n rhaid codi rhai o'r corau powdr a gosod llawr newydd ar yr ochr, ac rydym yn diolch yn dawl iddo bob tro y cawn eistedd ar un o'r cadeiriau yn lle'r corau!

Penderfynodd pwyllgor diaconiaid a swyddogion Noddfa fod lle i gael mwy nag un diacon newydd, a bod angen hefyd am Swyddog Iechyd a Diogelwch newydd. Cawsom drefn oedd yn rhoi cyfle inni fel eglwys wrando ar arweiniad yr Arglwydd drwy bawb o'r aelodau, a daeth yr ateb yn glir.

O ran gwaith y Swyddog Iechyd a Diogelwch, Mr John Elfyn Jones sydd wedi cymryd ato, gan ddechrau yn yr oedfa ganhwyllau,

a gwerthfawrogwn ei barodrwydd i fentro fel hyn gyda ni, ac i roi ei ddoniau ar waith yng ngwasanaeth yr Arglwydd yn Noddfa.

Ac mae'n hyfrydwch i ni fel eglwys fod Duw wedi donio rhai a'u darparu i fod yn ddiaconiaid hefyd. Enwau gŵr a gwraig, Mrs Ann Morgan, a'r Athro Densil Morgan, ddaeth i law, ac yn Noddfa, fel y tu hwnt, mae eu doniau yn hysbys. Bu hanes Ann yn y Clonc yn ôl ym mis Medi 2016 (tudalen 9) gan nodi amrywiaeth ei diddordebau gan gynnwys cerddoriaeth, addysg, a'r cyngor lleol, ac mae Densil yn ddiwinydd academaidd rhyngwladol uchel ei barch, yn fwyaf cyfarwydd i ni efallai oherwydd ei gyfraniad at drafod hynt Cristnogaeth yng Nghymru hyd yn hyn, ac yn benodol eleni, am ei ragair dadansoddiadol newydd i gyfrol Saunders Lewis ar Williams Pantycelyn. Ers iddyn nhw ddod atom o Fangor rai blynyddoedd yn ôl mae'r ddau wedi bod yn barod iawn i gyfrannu at fywyd Llambled, ac yn arbennig, Noddfa. Ann yw Ysgrifennydd yr eglwys ers 2013, ac ers 2014 bu Densil ac Ann yn ein croesawu, yn Gylch ac yn dref, i'r Gilfach ar gyfer Astudiaeth Feiblaidd reolaidd dan arweiniad Densil. Gwerthfawrogwn barodrwydd y ddau i wasanaethu fel diaconiaid.

Diolchwn i John a Derek am eu gwasanaeth yn yr Arglwydd ar hyd y blynyddoedd, a dymunwn yn dda i John Elfyn sy'n codi'r awenau fel Swyddog Iechyd a Diogelwch. Dymunwn yn dda hefyd i Ann a Densil wrth iddyn nhw ymuno â diaconiaid diwyd a doeth sy'n parhau wrth y gwaith, sef Janet Evans, Haulfryn, ac Alun Williams, Crown Stores. A thra ein bod yn ddiolchgar iawn i bawb o'r rhain, mae ein diolch pennaf ni i gyd i'r Arglwydd am ei ddaioni i ni wrth iddo sicrhau rhai mor barod i weithio yn ei wasanaeth, fel bod mwy eto yn clywed am gariad Duw.

Llanbedr Pont Steffan



Mae Clwb Karate 'Black Wolf' yn mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn mae gan y clwb tua 100 o aelodau. Mae'r clwb yn dod ag amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd at ei gilydd o dan yr un to i ddilyn y grefft gywrain o dan arweiniad Sensei Jem. Dros y Nadolig rhoddwyd gwobrau i fyfyrwyr mwyaf addawol y flwyddyn ac yn y llun gwelwn Tomos Lloyd-Jones ac Agnieszka Michalska yn dod ar y brig ac yn cipio'r teitlau myfyrwyr y flwyddyn. Cynhelir y clwb mewn 3 lleoliad Cwmann, Coed y bryn a Llanfihangel ar arth. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Sensei Jem ar 07813217266.

Capel Brondeifi

Ar y 26ain o Ionawr, cynhaliwyd Cinio Blynyddol Urdd y Benywod. Ioan Wyn Evans oedd y siaradwr gwadd a soniodd am ei brofiadau amrywiol yn cynhyrchu rhaglenni radio a theledu mewn gwahanol rannau o'r byd. Cafwyd pryd hyfryd o fwyd yn Y Pantri - a diolch i Delyth am ei baratoi, gyda chymorth Meinir. Roedd hi'n noson hwylus iawn.

Y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, oedd yn y pulpud ym Mrondeifi ar y 5ed o Chwefror, a hynny am y tro olaf am ychydig wythnosau. Manteisiodd ar y cyfle i deithio i Siapan i ymweld gyda'i ferch, Branwen, sy'n byw ac yn gweithio yno.

Mr Gareth Morgans gymerodd y gwasanaeth ar y 12fed o Chwefror, gan gymryd 'Dwylo' fel ei thema. Ar y Sul canlynol, y 19eg o Chwefror, bu'r Parch Goronwy Evans hefyd yn trafod grym y dwylo yn ei bregeth ar gyfraniad dyn a dynoliaeth.

Mrs Melda Grantham, Ysgrifennydd yr enwad yng Nghymru, fydd yn camu i'r pulpud ar y 26ain o Chwefror. Yna, ar y 5ed o Fawrth, cynhelir gwasanaeth Gŵyl Ddewi, gyda'r gweinidog, plant yr Ysgol Sul a theulu Ffosyffin yn rhannu'r cyfrifoldebau. Bydd cawl i ddilyn ac mae'n argoeli i fod yn achlysur cofiadwy.

Bu farw dau o aelodau'r capel yn ddiweddar. Roedd Mrs Betsi Jones yn ffyddlon a theyrngar i'r capel am



Glesni Morris, Llanddeiniol yn fuddugol ar yr unawd a'r llefaru 10-12 oed yn Eisteddfod Dihewyd gydag Ifan Meredith, Llanbed yn ennill ail yn y ddwy gystadleuaeth.

ddegawdau. Fe'i chofir fel rhywun oedd yn meddu ar wên barod a hiwmor iach.

Dyn addfwyn a thawel oedd Mr John Gregson, a bu farw'n ddisymwth. Yn gitarydd amryddawn, roedd yn hoff o adnewyddu ceir Mini Cooper S yn ei amser hamdden. Mawr fydd y bwlch ar ôl y ddau yma, a chydymdeimlwn gyda'u teuluoedd yn eu colled.

Merched y Wawr

'Roedd ein cyfarfod Mis Chwefror yn wahanol i'r arfer gan ei fod yn agored i bawb. Daeth tua 80 o bobol ynghyd i Festri Shiloh ar y 13eg o'r mis yn cynnwys aelodau o ganghennau cyfagos, cyn aelodau, ffrindiau ac ambell i ddyn mentrus! Cawsom wrando ar "Dim ond Dwy" sef yr actorion amryddawn Rhian Morgan a Llio Silyn. Testun eu cyflwyniad oedd "Bwci Bo" sef hanesion am ysbrydion benywaidd Cymru. Cafwyd ymateb da gan y gynulleidfa a llawer o hwyl. Ar ôl y cyflwyniad cafwyd cyfle i gymdeithasu dros gwpanaid o de wedi ei baratoi gan Pat, Eryl, Gwyneth a Gwynfil a diolchwyd i bawb gan ein Llywydd Elin. Enillydd y raffl misol oedd Irene Jones.

Bydd ein cyfarfod nesaf sylwer ar yr 22ain o Fawrth pan y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi drwy gael te prynhawn yn Y Pantri am 3.00 o'r gloch. Edrychwn ymlaen yn fawr at hynny.

Cymdeithas Hanes Llamed

Yng nghyfarfod mis Chwefror, treuliwyd orig ddifyr yn gwrando ar Dr Pete Davis, Alltlyblaca yn sôn am ffotograffwyr yng ngogledd Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychydig iawn ohonynt oedd i'w gael, gan fod ffotograffiaeth yn beth newydd yn yr 1840au. Artistiaid oedd wedi cofnodi tirluniau a phortreadau cyn hynny - a hynny i'r teuluoedd cefnog oedd am dangos eu



Croesawyd dau ddiagon newydd yn Noddfa ar y 5ed Chwefror: Densil Morgan ac Ann Morgan. Gwnaed John Morgan yn diacon anrhydeddus ac anrhegwyd Derek Evans.

cyfoeth.

Yn yr 1830, darganfu William Henry Fox Talbot y ffordd i dynnu llun; llun ffenest yn ei gartref yn Abaty Lacock oedd yr un cyntaf. Medrai ail-gynhyrchu'r un llun gan mai ar ffurf negatiff oedd y gwreiddiol. Tua'r un amser, darganfu Louis Deguerre broses wahanol o dynnu llun, un o ansawdd gwell, ond dim ond un copi o bob llun oedd yn bosib i'w greu, heb dynnu'r union llun eto. Defnyddiwyd platiau i dynnu'r lluniau yma - rhaid oedd eu paratoi yn y munudau cyn tynnu'r llun, ac eto eu datblygu ar unwaith wedi hynny. Os am lun bach, plât bach, ond os am lun fwy o faint, plât o'r maintioli cywir - ac wrth gwrw camera i gymeryd y platiau. Felly byddai offer y ffotograffydd yn cynnwys sawl maint o gamera, sawl maint o blatiau gwydr neu gopr, papur, fframiau, y cemegau oedd eu hangen ar gyfer prosesu'r lluniau, pabell dywyll - a'r rhain i gyd yn cael eu cludo o le i le gan y ffotograffwyr. Teithiau'r ffotograffwyr hyn i'r manau y bu'r artistiaid blaenorol yn cofnodi'r tirlun, a cheir yr un lluniau o gestyll, pontydd a thirluniau gan wahanol ddynion.

Erbyn yr 1860au, roedd cannoedd o bobl yn teithio ar y trenau, ac am gael cofnod o'u hymweliadau. Roedd y broses o dynnu llun wedi datblygu rywfaint erbyn hynny, a phris y lluniau yn fwy rhesymol. Anodd oedd tynnu llun pobl i ddechrau gan fod angen iddynt sefyll yn hollol lonydd am gyfnod, ond gyda'r datblygiadau, daeth hyn yn bosib, a'r ffotograffydd yn medru mynd â'r platiau yn ôl i'w stiwdio i gynhyrchu'r lluniau.

Mae enw Francis Ffrith yn gyfarwydd i bawb. Cyflogai ef dîm o weithwyr i dynnu lluniau iddo, gan greu busnes sylweddol o dynnu lluniau, ac mae'n bosibl prynu'r lluniau yma o hyd.

Diolchwyd i Pete am noson ddifyr gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, ac anogodd pawb i fynd weld

arddangosfa o waith Pete Davis ei hun a fydd yn agor yn y Llyfrgell Genedlaethol Mawrth 4ydd, ac y bydd i'w weld tan fis Mehefin.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, Mawrth 21ain, 7.30 yh yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd Mr Gerald Morgan yn sôn am 'Ffenics yn y Tirwedd Gymraeg' - hanes Dynefwr.

Cylch Trafod Amaethyddol

Mae Rhaglen y Tymor wedi bod yn amrywiol iawn eleni a dyma grynoded byr o'r cyfarfodydd.

25 Hydref - Y Siaradwr Gwadd oedd John Owen o Goleg Gelli Aur sydd hefyd yn Gadeirydd Tîm De Cymru dros Waredu Diciau (TB) mewn gwartheg.

8 Tachwedd - Noson yn ymwneud a pheiriannau amaethyddol yng nghwmni John Rhodes o Sir Benfro a fu'n canolbwyntio ar y testun 'Chwistrellu Cnydau'.

22 Tachwedd - Rhidian Jones o "Livestock Systems Ltd" oedd y gŵr gwadd a fu'n trafod Maeth i Ddefaid.

6 Rhagfyr - Daeth David Williams, Dolaugwyrdion i'r adwy gan fod y siaradwraig wadd yn sâl a diolch iddo am ei hanesion diddorol am ei deulu a'i ffordd o ffermio yn Nolaugwyrdion.

20 Rhagfyr - Seiat Holi - Y Panelwyr oedd Caryl Haf Jones, Mared Rand Jones (UAC) a Wyn Evans (NFU Cymru). Cafwyd trafodaeth eang ar nifer o bynciau llosg.

13 Ionawr - Noson yng ngofal "Lloyds Animal Feeds" yn trafod ychwanegion i'r samplau silwair. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r cwmni am brofi'r holl samplau o silwair a gwair ar gyfer y gystadleuaeth flynyddol. Mae hyn yn bwysig iawn i aelodau'r grŵp ac mae'r dadansoddiadau yn gymorth mawr ar gyfer cynllunio bwydo yn ystod y gaef.

24 Ionawr - Trafodwyd y pwnc o drin llyngyr mewn gwartheg a defaid er mwyn lleihau gwrthsafiad dan ofal Eurion Thomas a Jim

Llanbedr Pont Steffan

Hopkins. Ar ddiwedd y noson cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol ac etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd – Anwen Hughes, Bryngido; Cadeirydd – Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge; Ysgrifennydd – Gareth Jones, Cilerwisg; Trysoryddion – Dai a John Evans, Ynys; Gohebydd y Wasg – Eira Price, Gelliwrol; Y Pwyllgor – David Thomas, Maesfforest; Carwyn Davies, Penlan; Elfyn Morgans, Glwydwrn a Carwyn Lewis, Gwarcoedion; Llywyddion Anrhydeddus – Mrs Margaret Dalton, Gelligarneddau; Mr Twynog Davies, Frondolau; Mr Arthur Davies, Dolcoed, Mr Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge a Mr John H Jones, Plas y Dolau. Cafwyd adroddiad trylwyr gan y Trysoryddion. Bydd y Grŵp yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu yn ystod y tymor nesaf a bydd nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ynghyd â Chinio'r Dathlu. Cysylltwch ag Aneurin Davies neu Gareth Jones am fwy o wybodaeth.

7 Chwefror – Medwyn Parry o "Blood Bikes Wales" ynghyd â nifer fawr o'r gwirfoddolwyr oedd yn bresennol o'r elusen. Croesawyd Teulu Tyllwyd i'r cyfarfod i gyflwyno siec er cof am y diweddar Mrs Ceinwen Jenkins, Ceulan. Cyflwynwyd swm sylweddol iawn gan yr wyrion ar ran y teulu a diolchwyd yn gynnes iawn iddynt. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn am waith yr elusen gan Medwyn Parry.

21 Chwefror – Dr Delana Davies oedd yr arbenigwraig yn trafod pwysigrwydd Maeth a Bwydo addas ar gyfer Gwartheg Biff. Cafwyd cyflwyniad arbennig a manwl iawn ganddi yn profi ei harbenigedd yn y maes a'r pwysigrwydd i ymdrin a'r holl dechnoleg newydd sydd ar gael i gynorthwyo'r sector. Diolch i Gyswllt Ffermio am noddi'r noson ac am eu presenoldeb. Nododd ein Cadeiryddes fod y casgliad ar gyfer elusen o'i dewis, sef Adran Cemotharapi yn Ysbyty Bronglais yn £300.00 a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor.

Bydd Trip y Gwanwyn yn mynd i Sir Benfro a Thrip yr Hydref ar 19, 20, 21 Medi i'r Gystadleuaeth Aredig yn yr Iwerddon – am fwy o fanylion cysylltwch ag Anwen.

Cofiwch am ddathliadau'r Grŵp yn 40 oed ac os oes gan unrhyw un atgofion i'w rhannu cysylltwch ag Aneurin neu Gareth.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Nellie Williams, Y Fenni, Llambled (gynt of fferm Abernaint, Crugybar) a hunodd ym mis Ionawr, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt

yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiaid, blodau, a galwadau ffôn.

Hefyd, dymuna Dan Jones, Penarth, Heol y Bryn, Llambled, ddiolch o galon i bawb am y cardiaid, anrhegion, a chyfraniadau a dderbyniodd wrth ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Rhagfyr. Trosglwyddwyd £400 yr un i ddwy elusen o'i ddewis, sef yr elusen amaethyddol R.A.B.I a Macmillan. Diolch i bawb am eu caredigrwydd a chyfeillgarwch gwerthfawr.

Adran Llambled

Yn ystod y tymor mae'r plant wedi cael cyfnod hwyliog iawn yn dawnsio a chadw'n heini gyda Sioned Allan. Daeth Rhydian i gynnal disgo Santes Dwynwen a chafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Anthea. Diolch i bob un ohonynt.

Mae'r plant yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a diolch o galon i Elin, Rhiannon, Lois a Sian am hyfforddi – rydym yn ffodus iawn i'w cael i'n cynorthwyo.

Diolch

Dymuna Mair, Elvira a'u teuluoedd ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad gan berthnasau a ffrindiau a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, Phyllis Beatrice Smith M.B.E. Diolch hefyd i gartref Min-y-Môr, Aberaeron a meddygon a nyrsys lleol am eu gofal di-flino.

Diolch

Dymunaf i Joan Piper, Nant y Berllan, Rhodfa Glynhebog, Llambled ddiolch o galon i bawb a wnaeth ymweld â mi ac am y blodau, cardiaid a'r llythyron a dderbyniais ar farwolaeth fy mhriod Michael, a fu farw ar Ionawr 20fed. Bu eich geiriau caredig yn gymorth mawr i mi. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mor hael i Gronfa Nyrsus Macmillan er cof am Michael.

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod mis Chwefror dathlodd Mrs Mary Jones, Derwen Fawr, Heol Llanwnnen ben-blwydd arbennig yn 90 oed. Dymuniadau gorau i chi.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Ceinwen Jenkins, Ceulan (Tyllwyd) ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a'r caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Codwyd swm o £2,465 er cof amdani. Cyflwynwyd siec i Beiciau Gwaed Cymru gan y teulu.

Cymanfa Ganu 300 Pantycelyn

Cynhaliwyd cymanfa ganu arbennig yng nghapel Shiloh,

Llanbedr Pont Steffan, nos Sul 12 Chwefror, i nodi 300 mlynedd ers geni'r emynydd William Williams, Pantycelyn. Twynog Davies oedd i fod i arwain, ond bu'n rhaid iddo orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dirprwyodd y dasg o arwain i Delyth Morgans Phillips. Eurwen Davies oedd wrth yr organ, a chafwyd cyfraniadau gan dri chôr lleol: Corisma, Côr Meibion Cwmann, a Lleisiau'r Werin. Gwnaed y rhannau arweiniol gan Densil Morgan; rhoddodd fywgraffiad cryno o'r emynydd, yn ogystal â chroesawu sawl aelod o deulu Williams Pantycelyn i'r gymanfa. Roedd hi'n braf gweld y capel yn gyfforddus iawn a'r gynulleidfa'n morio canu. Recordiwyd y gymanfa gan gwmni Parrog, a bydd i'w chlywed ar Ganiadaeth y Cysegr ddiwedd Ebrill. Diolch i bawb am gefnogi'r digwyddiad, ac am y rhoddion hael at Gymorth Cristnogol.

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Cyfarfod

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Gynradd Llanwnnen ar Fawrth 13eg am 7.00yh i drafod y ffordd orau i ddathlu cyfraniad yr ysgol i'r gymuned dros y ganrif ddiwethaf. Croeso cynnes i bawb.

Cafwyd noson arbennig ar yr 3ydd o Fawrth yn Noson Cawl a Chân y pentref. Bu disgyblion yr ysgol yn perfformio eitemau'r Eisteddfod ar y cyd gydag aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog. Cafwyd cyfle yn ystod y noson i ddiolch i aelodau y Cyngor Cymuned am eu rhodd hael i'r ysgol er mwyn i ni ddatblygu ein cynlluniau o hybu ddysgu digidol o fewn yr ysgol.

Llongyfarchiadau i Demie May Gavin, disgybl blwyddyn 6 am gynrychioli yr Ysgol yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' y Rhanbarth yn Ysgol Bro Teifi. Er nad oedd Demie yn ddigon ffodus i fynd trwyddo i'r rownd nesaf rydym yn hynod falch ohoni ac yn diolch o galon iddi am wneud sioe mor dda a chynrychioli'r ysgol mor wych. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Elan Jenkins, Ysgol Cwrtnewydd am gipio lle yn y rownd nesaf. Pob lwc i ti Elan.

Yn ystod y mis yma mi fydd y disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Dawns. Mae'r plant wedi bod yn ymarfer yn galed ac hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs Elonwy Davies am hyfforddi a chyfeilio i ni ac i gyn ddisgybl o'r ysgol, Catrin Rosser, am gynorthwyo gyda'r dawnsio disgo.

Cefn Hafo

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun – Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

W.D. Lewis
a'l Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Gwasanaethau Coed Llambled



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llambled, SA48 8EL
01570 422819
www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llambled**
■ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Enw: Gareth John Morgan-Isaac
Oed: 20
Pentref: Llanbedr Pont Steffan
Gwaith: Saer
Partner: Clare Last
Teulu: Mam, Dad, Angharad a Alex.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae pêl droed i Llanbed a chwarae yn twrnament pêl droed Ian Rush yn Aberystwyth yn cynrychioli Ceredigion.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Sam Tân a Nyth Cacwn.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Ffrind fy chwaer yn ffono fy chwaer i ddod i hôl fi o parti 18 Rhian Milcoy yn y Llew Du, Llanybydder ar ôl gormod o'r pop cryf - odd dim siâp ma, wpsi!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn serchog a chwrtais i bawb.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Gwneud yn fawr o bob cyfle.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Bryn Fôn.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Ffarmwr.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Gyrru Cart Golf odd Dad wedi prynu i fi, o amgylch yr iard adre ar brynhawn Sul 'da John Heath wrth fy ochor, a cholli rheolaeth a dreifo strêr mewn i ddrws y garej, odd yffach o tolc yn y drws! Odd mam a dad ddim yn gweld y peth yn ddoniol.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Bwcio noswaith o wylïo Rygbi yn Parc y Scarlets, Llanelli a noswaith yn y Corran, lawr yn Nhalacharn - rhamantus iawn!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar ganol y cae Rygbi ac allan efo ffrindiau yn cymdeithasu

Beth yw dy lysenw?
GMI ne Gazmi

Pwy yw dy arwyr?
Y diweddar Ray Gravell

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Mwynhau cwrdd â phobol newydd - sdim un diwrnod yr un peth.



Y peth gorau am yr ardal hon?
Pawb yn barod i helpu ei gilydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Rhewlydd bach cul.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol dau wynebog

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Yn siop 'Timber Man' yn Caerfyrddin, ac os byse bach yn sbâr, gwylïau!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Mam yn y bore

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan nath Cymru golli yn erbyn Lloeger

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Tywydd twym

Unrhyw ofergoelion?
Gweld cath ddu yn croesu'r heol o fy mlan i

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Ma bywyd rhy fyr i ddyfaru

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Rygbi ac ambell i nosweth yn y gym!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rygbi

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Joia dy fywyd achos ma bywyd rhy fyr.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cwrdd â Clare.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
'Tall, Dark and Handsome' ;-)

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Strab, dim hanner call!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Volkswagen Caddy.

Beth yw dy hoff wisg?
Shorts a T-shirt Canterbury.

A'th hoff adeilad?
Millenium Stadium a Millenium Centre yn Caerdydd.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Clare.

Beth yw'r cludfywyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy ddiod arferol?
Peint o Lager.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Ta beth ma Mam wedi prynu.

Beth yw dy hoff arogl?
Cinio Dydd Sul.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwylïo Netflix a thraed lan

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi

fwyaf aml?
Facebook neu Dewalt.

Sawl teest y dydd wyt ti hala?
Sai'n ddyn y neges testun - well gen i y snapchat!

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
John Heath.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Spy.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Traed.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Fy ffôn symudol.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Chwarae'r drwms.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Red-Bull.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Helpu adre yn y busnes bysiau 'da Dad, Mam ac Angharad.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Tools.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Dadcu a Mamgu Llanbed.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?
Dad a Mam.

Y gwylïau gorau?
Malia 2015 'da bois ysgol.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
America, Awstralia a Seland Newydd.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Trafaelu,
Prynu tŷ,
Pasio test gyrru bws.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Rhoid y ffôn symudol ar charge a gosod y larwm.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Dal yn gweithio fel saer ond hefyd adre yn helpu Dad a Mam yn y busnes.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 22 o aelodau ynghyd i Eglwys Llanwenog ar yr 8fed o fis Chwefror, a chroesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd. Diolchwyd i'r Ficer ac i aelodau'r Eglwys am ganiatáu i ni gwrdd yno.

Cydymdeimlwyd â Ray Evans, Brynhogfaen, wedi colli ei chwaer, a Mary Jones, Penrheol wedi colli modryb. Dymunwyd gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylys, a rhoddwyd cyfarchion pen-blwydd i ddau o'r aelodau a fydd yn dathlu yn ystod y mis.

Croesawyd Mrs Edith Williams, y siaradwraig wadd, gan y Cadeirydd, gan roi ychydig o hanes ei chefnidir.

Sôn am ei thaith y llynedd i St Petersburg yn Rwsia wnaeth Edith, gan ddangos lluniau i ddangos lle'r oedd wedi bod. Rhoddodd hanes codi St Petersburg yn 1708 - a'i enw'n newid i Petrograd wedi'r chwyldro yn 1917; Leningrad yn 1924 - cyn newid nôl eto i St Petersburg yn 1994.

Caed hanes y teulu brenhinol - y Tsariaid, ac fel eu lladdwyd a'u claddu'n gyfrinachol, a neb yn cael eu rhoi ar brawf am eu lladd. Darganfuwyd rhai o'r beddau yn 1976, ac un arall yn 2002.

Dangoswyd gwycheder y palasau a fu'n eiddo i'r teulu Brenhinol - yn llefydd i dwristiaid erbyn heddi - 5,000 o bobol yn gallu bod yn yr Hermitage (Palas y Gaeaf) ar yr un tro. Aur ac amber yn gorchuddio'r muriau, llawer ohono wedi ei adnewyddu wedi'r rhyfel. Gwelwyd lluniau o Wyau Fabergé, yr wyau Imperialaidd wedi ei creu i'r Tsariaid, yn agor i ddatgelu rhyw drysor arall y tu mewn iddynt.

Diolchwyd yn gynnes i Edith am yr hanes diddorol gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd, hanes a theithio wedi ei blethu'n gywain. Mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan wragedd yr Eglwys, a diolchwyd iddynt hwythau eto gan Irene Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf Dydd Mercher Mawrth 22ain (nodwch y dyddiad), am 1.30 ym yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, pan fydd y plant yn rhoi adloniant i'r aelodau.

Boreau Coffi misol

Bwriedir cynnal Boreau Coffi yn Neuadd y Pentre, Drefach, rhwng 10 yb a 12 canol dydd, bob dydd Mercher cyntaf yn y mis, gan gychwyn ar Mawrth 1af. Darperir coffi a chacenau cartre am £1 y person.

Gobeithiwn y bydd hyn yn darparu gwasanaeth cymdeithasol i gymuned Drefach a Llanwenog, pan fydd preswylwyr a newydd-ddyfodiaid yn medru cwrdd a dod i adnabod ei gilydd mewn awyrgylch cyfeillgar.

Am fwy o wybodaeth, ymunwch â thudalen Facebook 'Calendar Cymdeithasol Cledlyn', neu



Roedd Chwefror y 14eg yn ddiwrnod arbennig yn Ysgol Llanwenog lle bu'r plant yn cydweithio gyda'r W. I. i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gofalu am yr Amgylchedd. Cynhaliwyd diwrnod y Calonnau Gwyrdd yn yr ysgol. Roedd y plant i gyd wedi creu calon werdd ac fe'u harddangoswyd hwy yn yr ysgol ac ar y we. Daeth aelodau o'r W. I. ar ymweliad i'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant am y neges arbennig yma a chawsant gyngerdd bach o ganeuon traddodiadol gan y disgyblion hefyd. Roedd y prosiect bach yma yn gydweithio hyfryd gyda'r gymuned.

cysylltwch â Jan neu Brian ar 07939 077688 neu 07794 959662.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld yno.

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Cynhelir y gwasanaeth blynyddol yma eleni yn Eglwys Llanwenog, dydd Gwener, Mawrth 3ydd am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i chwiorydd o bob enwad.

Eglwys Santes Gwenog

Edrychwn ymlaen at dymor y Grawys sydd yn prysur agosáu; cyfnod i gofio am yr Iesu yn yr anialwch am ddeugain niwrnod. Mae Sul cyntaf y Grawys ar y 5ed o Fawrth, a bydd llawer yn ymwadu rhag bwyta rhai danteithion er mwyn cofio'r dioddefaint.

Mae'r Parchedig Suzy Bale wedi trefnu nosweithiau, 7-8 ym yn yr Eglwys fach i astudio'r Grawys ar y dyddiadau canlynol: Mawrth 7, 14, 28, ac Ebrill 4 ac 11eg.

Nos Iau, Ebrill 13eg, cynhelir Swper Agape am 7 yh; croeso cynnes i bawb.

Bu'r Gymdeithas Hŷn yn cynnal eu cyfarfod misol yn yr Eglwys ar yr 8fed o Chwefror, ac ar y 24ain o Chwefror caed noson yng nghwmni Mr David Cooper, a fu'n un o ofalwyr y Coronau Brenhinol yn y Tŵr yn Llundain. Braf oedd cael hanes ei brofiadau tra'n gweithio yno.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylys, ac yn methu dod i'r eglwys, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at y teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Cofiwn am y diweddar Mr Lewis Davies, Beili Bach, Llanllwni, tad, tad-ynghyfraith a thad-cu parchus.

Ysgol Llanwenog

Ddechrau'r mis aeth disgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad

breswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Cafodd pawb amser da wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol ac wrth ddawnsio yn y disgo. Diolch yn fawr iawn i Miss Carol Davies, Louise a hefyd Wendy am roi o'u hamser i'w gwarchod.

Cynhaliwyd diwrnod Diogelwch ar y We yn yr ysgol lle bu'r plant yn derbyn hyfforddiant trwy weithgareddau a chyflwyniadau ar sut mae cadw eu hunain yn ddiogel wrth fanteisio ar yr holl bethau cyffrous sydd gyda'r we ei gynnig.

Bu clwb yr Urdd yn cwrdd yn wythnosol a'r wythnos diwethaf bu'r plant yn mwynhau dawnio gwerin o dan arweiniad Mrs Eirlys Jones.

Aeth Hannah Ayonoadu draw i ysgol Bro Teifi i gystadlu yn ail rownd cystadleuaeth coginio'r Urdd sef y Cogurdd. Nid oes canlyniad wedi dod i law eto.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Hannah, Teleri, Harri, Elin a Nia ar berfformiadau bendigedig yng ngala nofio'r cylch yn ddiweddar. Gwnaeth y pump yn wych a diolch yn fawr iawn i Mr Wyn John o ysgol Bro Pedr am drefnu cystadleuaeth dda iawn.

Cafodd y disgyblion i gyd gyfle arall i ymweld ag ysgol Dyffryn Cledlyn. Cafwyd cyfle i gerdded o gwmpas yr adeilad newydd ac i weld y datblygiad a chyfle i holi cwestiynau hefyd.

Dewiswyd Dwynwen, Elin, a Teifi o flwyddyn 4 i fynychu diwrnod ysgrifennu creadigol yn dwyn y teitl Sgwad Serennu yng nghanolfan Felinfach. Cawsant flas ac arweiniad ar ysgrifennu storïau ac ymestyn eu sgiliau ieithyddol.

Bydd Cyngerdd dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn cael ei gynnal yn Eglwys Santes Gwenog ar Fawrth y 1af am 2 o'r gloch. Croeso i bawb i fwynhau y dathlu.

Wyres fach newydd

Llongyfarchiadau i Gillian ac Emyr, Meysydd ar ddyfodiad wyres fach newydd - Mila Dafydd - merch i'w mab Rhydian a'i wraig Hayley lan yng ngogledd Cymru.

Gohebiaeth

Prin yw teuluoedd sefydledig y Sir hynny sydd heb ryw fath o gofnod o aelodau oedd yn ymwneud â'r diwydiant llaeth yn Llundain yn ystod y ddeunawfed a'r ugeinfed ganrif.

Yr hanes o gyfnod oes y porthmyn hyd at heddiw oedd testun y ddau lyfr, Llwybr Llaethog Llundain a'r London Milk Trail a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Seiliwyd y gwaith ar gyfraniadau'r cyhoedd ac mae'r ddau lyfr wedi tyfu erbyn hyn i fod yn adroddiadau diffiniol.

Serch hynny, mae'n amlwg bod mwy o ddeunydd i'w 'achub' a theimlaf ei fod yn bwysig recordio cymaint ag sy'n bosibl cyn i bethau fynd yn angof. Mae cyhoeddiad newydd - dwyieithog o bosib - ar y gweill er mwyn sicrhau hanes mor gyflawn â phosib fydd yn seiliedig ar adroddiant byw yn hytrach nag ar ystadegau archifol.

Apêl yw hon i unrhyw ddarlennydd sydd â deunydd - boed hwnnw ar bapur, yn llafar neu'n ddarluniadol - ac nad oedd wedi gallu ymateb i geisiadau blaenorol, i gysylltu â mi, Megan Hayes, ar megan.hayes10@gmail.com neu 01545 570545. Cydnabyddir pob cyfraniad os caiff ei ddefnyddio yn y cyhoeddiad.

Megan Hayes

YSGOL EGLWYS LLANLLWNI
CYNGERDD / CONCERT
NOS WENER 3YDD MAWRTH
FRIDAY 3RD MARCH

CAPEL NONNI, LLANLLWNI
7.00 Y.M. / 7.00 P.M.

ETERAU GAN BLANT YR YSGOL A CHOR LLEISIAU'R WEIR
ITEMS BY SCHOOL CHILDREN AND LEISIAU'R WEIR CHOR.
ARWERYDD / MC:- MR OWAIN DAVIES GWIRDYN.

LLYWYDDION / PRESIDENTS:-
MR A MRS ALUN WILLIAMS
RHYDLYDAN, PUMSAINT.

SPONSOR / SPONSOR
OAROLION / ARLWYTS £5.00
PLANT YSGOL GYMRADD / PUNARY SCHOOL CHILDREN
AN DDIR / FREE

ELW TUAG AT CRA LLANLLWNI /

Sefydliad Prydeinig y Galon
Ardal Llanybydder a Llanbed
Rhif elusen 225971

Noson gyda
Meibion y Mynydd
Ponterwyd

Yn y Neuadd Fwyd, Y Drindod
Dewi Sant, Llanbed

17 Mawrth 2017 am 7.30 yh

Llywydd : Dr David Ashton
Tocyn £15-00 a Lluniaeth Ysgafn

Llangybi a Betws



Bu cystadlu o safon uchel iawn yng nghystadlleuaeth Cogurdd yn Ysgol Bro Teifi yn ddiweddar gyda 33 o ysgolion yn cymryd rhan! Llongyfarchiadau i Martha Haf am lwyddo i fynd i'r rownd nesaf yng Ngheredigion, sef i'r naw olaf. Da iawn ti a phob lwc.



"Popio i fyny" yw thema'r Cyfnod Sylfaen yn ystod yr hanner tymor yma a braf oedd cael croesawu Cwmni Theatr Cymru i'r ysgol i berfformio sioe "Yr Esgid Enfawr". Cynhaliwyd gweithdy iaith hyfryd yn dilyn y sioe a chyfle i greu pypedau unigol hefyd.



Daeth James a Leah i goedlan Ysgol y Dderi i gynnal llu o weithgareddau Celtaidd gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4 sy'n astudio "Breuddwyd i Dderwydd" yn ystod yr hanner tymor yma. Bu'r plant yn ail greu brwydr Geltaidd, coginio bara ceirch, gwylio gof wrth ei waith, trafod dulliau hela ac adrodd chwedl Lludd a Llefelys. Cawsom ddiwrnod gwych yn llawn profiadau cyfoethog.



Bu disgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol y Dderi draw yn Llanerchaeron yn chwilio am ddrysau tylwyth teg! Roedd yn waith sychedig iawn felly cafwyd siocled poeth bendigedig gan Conti's. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn dylunio drysau tylwyth teg eu hunain yn yr ysgol, a gwnaethpwyd un drws arbennig gan y plant i roi ar lwybr y tylwyth teg yn Llanerchaeron. Os edrychwch chi'n ofalus iawn tro nesaf yr ewch chi i Lanerchaeron, efallai y dewch chi ar draws ein drws hudolus ni!

Hamdden

Croesawyd pawb yn wresog i'r cyfarfod gan y llywydd Janet Farrow. Hi hefyd oedd y siaradwraig am y prynhawn, ac fe gafwyd orig ddiddorol ac hanesyddol yn ei chwmni pan fu yn amlinellu diwylliant gwlad arall sef China trwy lygaidd ei theulu ei hunain. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gan Rita Jones am brynhawn diddorol ac arferion traddodiadol gwlad arall.

Enillwyd y raffl gan Alunda Jones, Gwen Lewis, Maureen Williams, Elizabeth Evans, Jill Smith, Morina Davies, Jen Cairns, Mair Spate a Janet Farrow.

Bydd y cyfarfod nesaf yn 'Castle Green' ar Fawrth 3ydd am 12.30 pryd y cawn Cawl i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Merched y Wawr

Croesawyd y wraig wadd sef y Parch Suzie Bale gan yr Is-Lywydd Deborah Jones a hi fu wrth y llyw drwy gydol y nos. Treuliwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni y wraig wadd pryd y bu yn arddangos casgliad o ddillad Cymreig o wahanol gyfnodau ac a wisgwyd ar achlysuron arbennig.

Rhoddwyd pleidlais o ddiolch iddi am noson ddiddorol ac hanesyddol gan Deborah Jones. Gwirfoddolodd Deborah fynd a'r dogfennau i'w sganio yn Felinfach go gyfer a Chasgliad y Werin.

Rhoddwyd y raffl gan Deborah ac fe'u henillwyd gan y Parch Suzie Bale. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Pantri pryd y cawn gawl i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 15fed am 7.00y.h.

I ddiweddu'r cyfarfod cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Ann Davies a Mair Morgan.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mrs Rowena Williams, Maeslyn ac sydd yn Ysbyty Glangwili ar hyn o bryd.

Dymuniadau gorau hefyd ac adferiad buan a i bawb a fu mewn ysbytai yn ddiweddar neu yn sâl adref. Brysiwch wella i chi gyd.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mrs Rita Jones, Olmarch Castle yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar.

Ysgol Y Dderi

Aeth y plant ati i greu fideo bop o stori Maelon Dafodrill a Dwynwen i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen a chafwyd noson hwylus yn yr Urdd yn dylunio ac ysgrifennu cardiau Santes Dwynwen. Bu rhai yn dadmer calonnau coch wedi rhewi gyda hydoddiant soda pobi, am arbrawf wyddoniaeth ffrwydrol a chyffrous!

Yn ystod yr oriau mân ar fore Sadwrn, 28ain o Chwefror, cychwynnodd Mrs Hayely, Mr Dylan, Miss Rhian a Mrs Heini ar eu taith i'r Excel yn Llundain. Cafwyd diwrnod cyffrous yn mynychu sioe BETT, sef prif sioe y Deyrnas Unedig sy'n hyrwyddo'r dechnoleg ddiweddaraf ym myd addysg. Roedd hi'n hwyr iawn erbyn iddynt gyrraedd adref y noson honno, ond roedd hi wedi bod yn brofiad gwych.

Daeth cyfarchion Blwyddyn Newydd Tseiniaidd yr holl ffordd o ddinas Jiangmen, Guangdong, Tsieina atom oddi wrth Miss Hua a'i dosbarth. Bu Miss Hua yn dysgu Mandarin i blant y Dderi llynedd, a braf oedd clywed plant y Dderi yn

canu cân i'w cyfarch hwythau. Mae hi'n flwyddyn y ceiliog eleni!

Bu disgyblion Ysgol Y Dderi yn gwisgo melyn i ddathlu Diwrnod Vasant Panchami yn ddiweddar. Dyma ŵyl y gwanwyn i'r Hindwaid. Cawsom ddiwrnod prysur yn llawn gweithgareddau.

Fel rhan o brosiect Ysgolion Arweiniol Creadigol daeth Sophie Hadaway a Cath Sherrel sef cydlynwyr y prosiect i fewn am y bore i weld yr arlunwyr Becky Knight a Helen Duffee yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 4. Bu'r plant yn creu llyfrau eu hunain ac yn argraffu diarhebion adnabyddus. Gwaith llythrennedd hwylus dros ben.

Mae cadw'n ddiogel ar y we yn hynod bwysig bob awr o'r dydd ac roedd cynnal gweithgareddau amrywiol ar Ddiwrnod Diogelwch y We yn hyrwyddo'r neges yma yn glir. Emojis a delweddau oedd ffocws y dyddiad gyda'r neges "Ewch ati i newid pethau: Dewch ynghyd er mwyn cael rhyngwyd gwell." Daeth PC Alun i fewn i siarad â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 er mwyn pwysleisio

Llangybi

diogelwch ar y we a bod yn "SMART."

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru gyda llawer o hwyl wrth greu fideos pop o hoff ganeuon y plant. Bu disgyblion blwyddyn 6 yn ffilmio fideo i gân "Rhedeg i Baris" gan Yr Anrhefn, blwyddyn 5 yn ffilmio i gân "Harbwr diogel" gan Elin Fflur a "Calon" gan Caryl Parry Jones i flwyddyn 3 a 4. Beth yw eich hoff gân chi?

Daeth Y Parchedig Elizabeth Arnold Davies i gynnal gwasanaeth boreol yr ysgol i sôn am y Grawys yn ddiweddar. Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen draw i Eglwys St Cybi i fedyddio ein doli Ela Mair. Cafwyd gwasanaeth cofiadwy iawn.

Llongyfarchiadau i'r holl blant fu'n cystadlu yng Ngala Nofio Cylch Llanbed. Roedd pawb wedi gwneud eu gorau glas a chafwyd tipyn o hwyl wrth gystadlu.

Dathlwyd Wythnos Gweithredoedd Caredig rhwng 12fed i'r 17eg o Chwefror. Wrth gwrs mae'n bwysig i fod yn garedig bob dydd o'r flwyddyn ond cafwyd wythnos arbennig i godi proffil caredigrwydd mewn byd negyddol a chythryblus. Bu'r plant yn cadw cofnod o weithredoedd caredig eu ffrindiau ar bapur post-its ac yn eu rhannu â gweddill yr ysgol, coginiwyd cacennau i'n gyrwyr bws a'n glanhawyr, gadawyd llyfrnodau caredig yn y llyfrgell i blant cael darganfod, bwydon ni'r adar a llawer mwy. Byddwch yn garedig bob dydd o'r flwyddyn. Yng ngeiriau Dewi Sant, "gwnewch y pethau bychain."

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Am amser i fod yn wleidydd!

Dyw hi ddim yn syndod bod yr ansicrwydd yn parhau wrth i bobl geisio dyfalu beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf wedi'r refferendwm ar adael yr UE.

Er yr holl honiadau mai 'Brexit yw Brexit' (neu, yn wir, 'Brecwest'), ni wyddwn eto pa ffurf yn union y bydd hwn yn ei gymryd, neu os fydd, yn y pen draw, yn digwydd o gwbl. Fe wyddwn, wrth gwrs, bod yna risgiau enfawr i ni yng Ngheredigion, boed yn ein prifysgolion, yn ein sector amaethyddol neu yn ein hunaniaethau fel dinasyddion Ewropeaidd.

Petai'n digwydd, mae llawer o agweddau sensitif yn y fantol. Mae sicrhau mynediad at y farchnad sengl yn holl bwysig i economi Ceredigion, rydym ni'n allforio llawer iawn o'n cynnyrch i Ewrop, ond wrth gwrs mae'r cyfnewid diwylliannol yn enfawr i'n myfyrwyr a'n trigolion.

Ar ôl trafodaethau helaeth yn y Cynulliad, roeddwn yn falch iawn, felly, bod Plaid Cymru wedi creu consensws gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen i Gymru yn sgil yr holl ansicrwydd yma. Mae Ceredigion yn lle agored a chroesawgar, ac rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru nawr wedi ymrwymo i amddiffyn yr ysbryd hwn.

Er hyn, roeddwn yn siomedig iawn y mis hwn i glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu pencadlys Awdurdod Cyllid Cymru,

yr asiantaeth newydd ar gyfer casglu rhai o drethi Cymru, yn Nhrefforest yn hytrach nag yn Aberystwyth neu'r Gorllewin. Fe godais botensial Ceredigion fel lleoliad yr Awdurdod Cyllid gyda'r Llywodraeth, felly mae'n siom fawr ei bod wedi penderfynu ar leoliad ychydig o filltiroedd tu fas i Gaerdydd ar gyfer y pencadlys. Fe fydda i'n codi'r mater unwaith eto, er mwyn tanlinellu'r angen am swyddi yn y canolbarth.

Y mis hwn, cynhaliais gyfarfod gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, a'r grŵp ymgychu dros ailsefydlu'r rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin, sef Traws Link Cymru. Roeddwn yn falch i ddod â'r ddau ynghyd i drafod yr asesiad dichonoldeb sydd ar y gweill a fydd yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn yr hydref. Mae gan Traws Link ymwybyddiaeth eang am y rheilffordd arfaethedig, yn ogystal ag uchelgais i weld y prosiect yn cael ei gyflawni. Roeddwn yn falch, felly, i glywed y Gweinidog yn nodi y dylai'r grŵp chwarae rhan bwysig yn yr astudiaeth.

Mae awydd cynyddol am deithio ar drenau yng Ngheredigion, ac i sicrhau ein bod wedi'n cysylltu'n llawn, unwaith eto, gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd. Diolch i Traws Link am ei holl waith hyd yn hyn, ac edrychaf ymlaen at weld ei gydweithrediad â Llywodraeth Cymru yn tyfu er mwyn symud i'r cam nesaf ar y prosiect hwn.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFTIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Sefydliad y Galon



Dyma rai o aelodau CFFi Felinfach yn cyflwyno siec i aelodau Cangen Sefydliad y Galon Ardal Llanybydder a Llanbed, wedi iddynt godi arian yn eu Cwrdd Diolchgarwch a thrwy ganu carolau.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Clwb Clonc

Mawrth

£25 rhif 391 :

Dorian Morgan,

77 Heol y Bont, Llambod.

£20 rhif 494 :

Ifor Williams,

10 Ffynnonbedr, Llambod.

£15 rhif 359 :

Ken Lewis,

Dolwerdd, Llanwnnen.

£10 rhif 331 :

John a Mary Jones,

Penrheol, Cwmsychpant.

£10 rhif 511 :

Mrs Mair Williams,

5 Llys Idwal, Llambod.

£10 rhif 176 :

Huw Evans,

Alltgoch, Cwrtnewydd.

£5 rhif 364 :

Mrs Mair Lewis,

10 Bryn-yr-eglwys, Llambod.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Rwy'n siŵr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? Wel pob lwc i bob un ohonoch ar y llwyfan neu gyda'r cystadlaethau creadigol, a gwnewch eich gorau glas!

Unwaith eto y mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio llun y gwddihw ar y goeden ac roedd y postmon yn brysur tu hwnt unwaith eto. Llongyfarchiadau i bawb ond yn arbennig i Elis Aur Haywood, Elen Casso-Davies, Logan Bartlett, Maia Morgans, Shiyann Lewis, Kayla Thompson, Solomon Edwards, Alissa Rees-Wise, Seren Evans, Emily Rees-Wise, Dani Price o Ysgol Gynradd Felinfach, Elin Morgan o Gribyn, Betsan Gwladys o Langeitho, Soffia Draycott-Evenden o Lanybydder, Mari Edwards o Gellan, Glesni Rhiannon Rees o Benffordd a Lleucu Jones o Bontrhydfendigaid am luniau taclus a lliwgar. Ond mae un yn dod i'r brig sef un gwych Erin Potter-Jones, Glynfaes, Drefach, Llanybydder. Da iawn ti Erin.

Wel mae'r cennin pedr yn dechrau dod allan a phawb wedi bod wrthi'n dathlu dydd Gwyl Dewi. Felly beth am fynd ati i liwio fy llun o'r cennin pedr hapus. Ewch ati i liwio'r llun a'i ddychwelyd i mi cyn diwedd y mis.

Hwyl am y tro



**Enillydd
y mis!**

**Erin
Potter-
Jones**

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

LAMMAS A FFEST AWST (91)

Yng nghalendr amaethyddol ein cyndeidiau, rhwng diwedd Mehefin a dechrau Awst y cynhaeaf gwair a gâi'r flaenoriaeth. Ddechrau Awst, byddai'r pladurwyr yn troi eu min a'u hegni at y grawn. Wedi hynny y câi'r creaduriaid fanteisio ar y cyfle i bori'r adladd. Roedd y dyddiadau a'r gweithgarwch a gâi'r sylw yn arwyddocaol ac o bwys ac fe'u coffeir yn yr enw 'Llechwedd awst' (tir yr aed ato ym mis Awst) ym mhlwyf Llandeilo Fawr. Yn nhref Caerfyrddin ceir Heol Awst (Lammas Street) sy'n coffau'r un arfer.

Mae Lammas yn tarddu o'r Hen Saesneg 'hlaf-mas' sef torth offeren; ystyrid Lammas 'calan Awst' yn ŵyl i ddathlu cynhaeafu'r grawn cyntaf, ei falu a'i bobi'n dorth i'w fendithio yn yr eglwys. Roedd yn achlysur poblogaidd iawn yn ystod yr Oesoedd Canol ond pylu wnaeth yr arfer yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd.

Disgrifir arferion calan Awst, Lammas day, yn ardal Talacharn,

sir Gaerfyrddin gan Mary Curtis (1815-1895) yn THE ANTIQUITIES OF LAUGHARNE... Roedd codi cabanau, 'Lammas houses', yn rhan amlwg o'r defodau a nodir ganddi hi. Câi'r cabanau eu codi o goed a brigau ac eithin yn ystod y bore ar gyfer y ffest nos. Roedd i rostio afalau a gwledda ran ganolog yn y gweithgareddau: dathlu aeddfedu'r ffrwyth. Ar ddiwedd y noson câi'r caban ei losgi er mwyn goleuo'r daith adref.

Yn 1752 y mabwysiadwyd y calendr Gregoraidd. Dros nos ychwanegwyd un diwrnod ar ddeg at ddyddiadau calendr Julian. Golygodd y newidiadau fod gwyl Lammas yn cael ei chynnal naill ai ar galan Awst, neu ar 12fed o Awst. Yn ei ysgrif 'Bugeiliaid Aberteifi', yn ogystal â disgrifio rialtwech yr ŵyl, nodir y cyfrif newydd gan William Thomas, Gwilym Marles (1834-1879):

Yn yr hen amser, ac yng nghof rhai eto yn fyw, yr oedd rhialtwech digyffelyb yn cael ei gynnal gyda ffest Awst. Gwledd oedd hon ar

ben y banc ar y 12fed o Awst, yn ôl y cyfrif newydd; ymgynullai iddi holl fugeiliaid y ffermydd nesaf i'w gilydd, a dygai pob un ei gyfran – picnic bugeiliol oedd. Edrychid ymlaen at hon trwy fisoedd o godi yn fore, a gwres a gwlawogydd, ac ystyrid hi yn ddigon o dâl am bob trafferth.

Dyma sut y disgrifir yr achlysur yn HANES PLWYFI LLANGELER A PHENBOYR:

FFEST AWST Dydd gwyl ydoedd hwn a gynhelid gan y bugeiliaid ar fynydd diroedd y plwyfi yn mis Awst. Cyneuid tan mawr ar y myny, a gosodid crochan mawr arno. Yn y crochan berwid cawl a dygai pob bugail a bugeiles eu cyfran i'w osod ynddo. Fel hyn gwneid gwledd flasus a chyfranogai pawb o honi gyda llawenydd.

Sue's Hair Stylist





- Edafu
- Trin ewinedd
- Trin traed



- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygaid

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!
- Tyllino pen Indiaidd
- Tyllino Sweden
- Tyllino cerrig poeth
a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tyllino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straen a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac ail fywiocau

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader

Rhif ffôn - 01559384794

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasnewaulleoedd.cymru
newaulleoedd@gmail.com

Eisteddfod Campws Hŷn Ysgol Bro Pedr



Myfyrwyr blwyddyn 12 sef Capteiniaid y tai - Creuddyn, Dulas a Teifi.



Mrs Delor James yn arwain seremoni'r gadair gyda'r bardd buddugol - Twm Ebbsworth, Teifi.



Aelodau tŷ Creuddyn yn perfformio'r Meim - trydydd.



Aelodau tŷ Teifi yn perfformio'r ddawns disgo - cydradd ail.



Daniel ac Alwyn yn rhan o berfformiad Meim Teifi - Ail.



Nest yn ennill yr unawd offerynnol



Meirion yn ennill yr unawd bechgyn



Aelodau tŷ Dulas yn perfformio'r ddawns disgo - cyntaf.

Oriel Luniau Arbennig Papur Bro Clonc



Cymanfa Ganu 300 Pantycelyn.
Adroddiad ar dudalen 19.

Llongyfarchiadau mawr i Sion Aled Evans o Gwmann ar flwyddyn lwyddiannus iawn o rasio ar ei feic modur. Bu 2016 yn flwyddyn i'w chofio i Sion wrth iddo gipio Pencampwriaeth Motocross Ieuenctid Cymru ar ei feic KTM 65cc. Hefyd, sicrhodd Pencampwriaeth Clwb Motocross Rhaeadr, ac yn ogystal cyflwynwyd iddo dlws Coffa Ffred Price - sef gwobr a gyflwynwyd i reidiwr gorau Gorllewin Cymru ar gyfer 2016.

Mentrodd hefyd i fyd rasio enduro traws gwlad am y tro cyntaf gan deithio o gwmpas Prydain Fawr yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Rock Oil Prydain. Yn dilyn dechreuad digon araf i'r gyfres o wyth ras, dysgodd Sion yn gyflym o'i gamgymeriadau cynnar gan ennill pedair ras ola'r gyfres i orffen y tymor yn gryf yn yr ail safle.



Yna, ym Mis Ionawr cyflwynwyd Sion efo'r ail wobwr yn seremoni Wobrwyo Personoliaeth Chwaraeon Ifanc Sir Gaerfyrddin. Mae Sion nawr yn edrych ymlaen at symud i feic 85cc ar gyfer tymor 2017. Pob hwyl i ti Sion. Amdani!

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llambedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.